
CPS Gogledd Cymru

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Gorffennaf 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi
HM Crown Prosecution Service Inspectorate

CPS Gogledd Cymru

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Gorffennaf 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi

HM Crown Prosecution Service Inspectorate

# TALFYRIADAU

Nodir y talfyriadau cyffredin a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn isod.
Eglurir y talfyriadau lleol yn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| ABM | Rheolwr Busnes Ardal |
| ABP | Cynllun Busnes Ardal |
| AEI | Arolygiad Effeithiolrwydd Ardal |
| ASBO | Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| BCU | Uned Gorchymyn Sylfaenol neu Uned Gorchymyn Bwrdeistrefol |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CCP | Prif Erlynydd y Goron |
| CJA | Ardal Cyfiawnder Troseddol |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CJSSS | Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod |
| CJU | Uned Cyfiawnder Troseddol |
| CMS | System Rheoli Achosion |
| CPIA | Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol |
| CPO | Swyddog Datblygu Achos |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CPSD | CPS Direct |
| CQA | Sicrhau Ansawdd Gwaith Achos |
| CTL | Terfyn Amser Cadwraeth |
| DCP | Erlynydd y Goron Rhanbarthol |
| DCV | Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr |
| DCW | Gweithiwr Achos Dynodedig |
| DP | Erlynydd ar Ddyletswydd |
| ECU | Uned Troseddau Economaidd |
| ETMP | Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol |
| HCA | Eiriolwr Llys Uwch |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| JDA | Rhyddfarnu dan Gyfarwyddwyd Barnwr |
| JOA | Rhyddfarnau dan Orchymyn Barnwr |
| JPM | Monitro Perfformiad ar y Cyd |
| LCJB | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd |
| MG3 | Ffurflen lle y cofnodir y penderfyniad cyhuddo |
| NCTA | Dim Achos i'w Ateb |
| NRFAC | Costau Gweinyddu Heb eu Neilltuo |
| NWNJ | Dim Tyst Dim Cyfiawnder |
| OBTJ | Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt |
| OPA | Asesiad Perfformiad Cyffredinol |
| PCD | Penderfyniad Cyn Cyhuddo |
| PCMH | Gwrandawiad Rheoli Ple ac Achos |
| POCA | Deddf Elw Troseddau |
| PTPM | Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad |
| PYO | Troseddwr Ifanc Cyson |
| SMT/G | Uwch Dîm neu Grŵp Rheoli |
| TU | Uned Dreialon |
| UBM | Rheolwr Busnes yr Uned |
| UH | Pennaeth yr Uned |
| VPS | Datganiad Personol Dioddefwyr |
| WCU | Uned Gofal Tystion |

# CYNNWYS


**A Cyflwyniad i'r broses asesu perfformiad cyffredinol ... 2**

**B Disgrifiad o'r ardal a'r llwyth achosion ... 3**

**C Crynodeb o ddyfarniadau ... 4**

**D Agweddau diffiniol ... 8**

1 Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo: rheoli a gwireddu'r manteision ... 8
2 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon ... 11
3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron ... 15
4 Datblygu achosion yn y llys ... 18
5 Achosion sensitif a throseddau casineb ... 20
6 Datgelu ... 22
7 Terfynau amser cadwraeth ... 23
8 Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion ... 24
9 Cyflwyno newid ... 26
10 Rheoli adnoddau ... 29
11 Rheoli perfformiad er mwyn gwella ... 31
12 Arweinyddiaeth ... 33
13 Sicrhau hyder y gymuned ... 35

**Atodiadau**

A Data perfformiad ... 37

B Asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau a gynorthwyodd â'r asesiad perfformiad cyffredinol hwn. ... 40

# A CYFLWYNIAD I'R BROSES ASESU PERFFORMIAD CYFFREDINOL

Canlyniad asesiad cyffredinol Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) o berfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yng Ngogledd Cymru yw'r adroddiad hwn ac mae'n cynrychioli asesiad pellach y gellir mesur gwelliant o'r asesiad sylfaenol blaenorol yn 2004-05 yn ei erbyn.

**Asesiadau**

Gwnaed dyfarniadau gan HMCPSI yn seiliedig ar asesiadau absoliwt a chymharol o berfformiad. Daeth y rhain o ddata cenedlaethol; hunan-asesiad CPS; canfyddiadau HMCPSI; a mesuriad yn erbyn y meini prawf a'r dangosyddion perfformiad da a nodir yn fframwaith yr asesiad perfformiad cyffredinol (OPA), sydd ar gael i bob Ardal.

Pennwyd yr OPA drwy raddio perfformiad yr Ardal o fewn pob categori naill ai fel 'Ardderchog' (lefel 4), 'Da' (lefel 3), 'Gweddol' (lefel 2), neu 'Gwael' (lefel 1) yn unol â'r meini prawf a amlinellwyd yn y fframwaith.

Mae'r Arolygiaeth yn defnyddio model penderfynedig a gaiff ei arwain gan reolau ar gyfer asesu, sydd wedi'i gynllunio i roi blaenoriaeth i'r graddau ar gyfer agweddau 'critigol' ar y gwaith fel ffactorau sy'n sbarduno'r lefel perfformiad cyffredinol terfynol. Caiff asesiadau ar gyfer yr agweddau critigol eu hategu gan raddau sy'n ymwneud â'r agweddau diffiniol eraill, er mwyn pennu'r OPA.

Mae'r tabl ar dudalen 7 yn dangos perfformiad yr Ardal ym mhob categori, ynghyd â 'chyfeiriad y teithio' ers yr OPA blaenorol.

Nid yw OPA yn arolygiad llawn ac mae'n wahanol i weithgaredd arolygu traddodiadol. Er ei fod wedi'i gynllunio i nodi'n gynhwysfawr yr agweddau cadarnhaol ar berfformiad a'r rhai y mae angen eu gwella, mae'n osgoi yn fwriadol bod yn ddadansoddiad manwl o'r prosesau sy'n sail i berfformiad.

Bydd y math hwnnw o archwiliad manwl, lle y bo angen, yn rhan o'r rhaglen ehangach o weithgaredd arolygu.

**Gradd cyfeiriad teithio**

Dengys hyn y newid ym mherfformiad yr Ardal rhwng y cyfnod asesu presennol a'r OPA blaenorol, hynny yw rhwng 2004-05 a 2006-07. Mae'r graddau posibl fel a ganlyn:

**Wedi gwella** - gwelliant sylweddol mewn perfformiad;
**Sefydlog** - dim newid sylweddol mewn perfformiad;
**Wedi gwaethygu** - perfformiad wedi gwaethygu'n sylweddol

# B DISGRIFIAD O'R ARDAL A'R LLWYTH ACHOSION

Mae CPS Gogledd Cymru yn gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae ganddo ddwy swyddfa, yn Wrecsam a Bae Colwyn. Mae Pencadlys yr Ardal (Ysgrifenyddiaeth) wedi'i leoli yn swyddfa Wrecsam.

Mae busnes yr ardal wedi'i rannu ar linellau daearyddol rhwng yr Unedau Dwyreiniol, Canolog a Gorllewinol. Mae pob uned wedi'i chyfuno ac yn cyflawni gwaith y llysoedd ynadon a Llys y Goron yn unol â'r ethos 'o'r crud i'r bedd'.

Yn ystod y flwyddyn 2006-07 roedd yr Ardal yn cyflogi cyfartaledd o 69.9 aelod o staff llawn amser, ac roedd ganddi gyllideb o £3,374,029. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 2% mewn staff, a chynnydd o 11.8% yn y gyllideb ers 2004-05, sef y cyfnod a gwmpaswyd gan yr asesiad perfformiad cyffredinol blaenorol.

Mae manylion llwyth achosion yr Ardal yn 2004-05, ac yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007 fel a ganlyn:

**Gwaith cyn cyhuddo**[1]

| 2004-05 | | 2006-07 | |
|---|---|---|---|
| Cyngor ysgrifenedig | 7,496 | Penderfyniadau a arweiniodd at gyhuddiad | 4,353 |
| Cyngor cyn cyhuddo (lle y mae ar gael) | 1,549 | Penderfyniadau nad arweiniodd at gyhuddiad[2] | 4,412 |

| **Gweithrediadau'r llysoedd ynadon**<br>(yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | **2004-05** | **2006-07** | **Newid canrannol** |
|---|---|---|---|
| Erlyniadau yn y llysoedd ynadon | 15,862 | 14,961 | - 5.7% |
| Gweithrediadau eraill | 57 | 6 | - 89.4% |
| **Cyfanswm y gweithrediadau yn y llysoedd ynadon** | **15,919** | **14,967** | **- 6.0%** |
| **Gweithrediadau Llys y Goron**<br>(yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | | | |
| Achosion a anfonwyd neu a draddodwyd i Lys y Goron benderfynu arnynt | 706 | 906 | +28.3% |
| Traddodi i ddedfryd[3] | 211 | 309 | +46.5 |
| Apeliadau o'r llysoedd ynadon[3] | 177 | 158 | -10.7% |
| **Cyfanswm gweithrediadau Llys y Goron** | **1,094** | **1,373** | **+25.5%** |

Ym mis Mawrth 2007 roedd 47.2% o droseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt o ganlyniad i gollfarnau.

1 Nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth ddilys â llwyth achosion cyn cyhuddo 2004-05 am mai dim ond o fis Ebrill 2006 ymlaen yr oedd dulliau cyhuddo statudol ar waith yn llawn ym mhob un o Ardaloedd y CPS.

2 Yn cynnwys penderfyniadau a arweiniodd at beidio â chymryd camau pellach, achosion a ystyriwyd (TICs), rhybuddion a gwarediadau eraill.

3 Cynhwyswyd hefyd yn ffigurau'r llysoedd ynadon, lle y cynhaliwyd y gwrandawiad sylweddol.

# C CRYNODEB O DDYFARNIADAU

**Ffactorau cyd-destunol a chefndir**

Ar adeg yr OPA diwethaf, rhannwyd busnes yr Ardal yn ôl dyletswyddau swyddogaethol. Roedd y ddwy Uned Dreialon yn delio ag achosion yr ymdriniwyd â hwy yn Llys y Goron ynghyd â threialon a ymleddir yn y llysoedd ynadon. Roedd yr Uned Cyfiawnder Troseddol (a rannwyd rhwng swyddfa Wrecsam a swyddfa Bae Colwyn) yn delio â'r achosion a oedd yn weddill yr ymdriniwyd â hwy yn y llysoedd ynadon.

Ym mis Ebrill 2006, ailstrwythurwyd Gogledd Cymru yn dair uned gyfunol, gyda phob un yn cwmpasu gwaith y llysoedd ynadon a Llys y Goron ar linellau daearyddol yn yr uned Ddwyreiniol (Wrecsam), yr uned Ganolog a'r uned Orllewinol (y ddwy ym Mae Colwyn) Gogledd Cymru. Ers hynny, mae cryn sefydlogrwydd wedi bod yn yr Ardal. Mae natur y llwyth achosion yn parhau i fod yn gymharol ddigyfnewid o ran y ffaith mai dim ond ychydig o droseddau difrifol a geir, er y cafwyd cynnydd mewn troseddau trefn gyhoeddus difrifol sy'n cynnwys llawer o ddiffynyddion. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yng nghyfran yr achosion neillffordd sy'n rhy ddifrifol ar gyfer awdurdodaeth ddiannod. Mae cyfraddau gwyro'r heddlu hefyd yn uchel ac mae'r ddau ffactor hyn wedi lleihau llwyth achosion y llysoedd ynadon ychydig, tra bod y llwyth achosion yn Llys y Goron wedi cynyddu. Mae rhai anomaleddau daearyddol eraill wedi codi, fel y cyfran gymharol uchel o achosion sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc cyson (PYO) yn yr Uned Orllewinol.

**Crynodeb**

Mae'r Ardal yn manteisio ar dîm rheoli deinamig sy'n nodi ac yn delio â heriau yn effeithiol. Ceir ymdeimlad datblygedig o gorfforaeth sy'n effeithio'n gadarnhaol ar forâl staff ac mae cydberthnasau â phartneriaid yn dda ar y cyfan, ond gallant fod yn adweithiol. Ceir ymdeimlad clir o gyfeiriad hefyd ac mae hyn wedi caniatáu i'r Ardal reoli newid mewnol yn gymharol dda. Aeth y broses o ailstrwythuro i unedau cyfunol rhagddi'n ddidrafferth a dylid dechrau gwireddu manteision gwasanaeth o'r crud i'r bedd yn fuan. Cafodd y system terfyn amser cadwraeth ei harchwilio'n yn llwyr yn dilyn y methiant ym mis Ebrill 2006.

Fel enghraifft o ddull llwyddiannus o reoli prosiectau ar y cyd, gall yr Ardal ddangos bod y trefniadau ar gyfer cyhuddo statudol ar waith bellach a bod ansawdd penderfyniadau cyhuddo yn gadarn. Gall erlynwyr ar ddyletswydd ychwanegu gwerth i ymchwiliadau drwy gyfrannu'n gynnar at achosion difrifol a chymhleth ac maent yn dechrau nodi materion ôl-gyhuddo ar y cam cyn cyhuddo. Mae hyn wedi helpu i gyflawni pum allan o chwe tharged gwireddu manteision yn 2006-07, ac er nad yw cyfradd yr achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon yn cyrraedd y targed, mae'n uwch na'r perfformiad cenedlaethol.

Fodd bynnag, cafwyd anhawster i ymdrin â phroblemau darparu adnoddau ar y cyd mewn perthynas â'r cynllun Dim Tyst Dim Cyfiawnder (NWNJ). Mae trafodaethau llwyddiannus gan uwch reolwyr wedi arwain at ymdrin yn rhannol â materion staffio yn yr Uned Gofal Tystion, ond nid yw'r Ardal wedi llwyddo i gyflawni holl safonau NWNJ ac mae cyfyngiadau o ran adnoddau yn parhau i gyfyngu ar y posibilrwydd o gyflawni pob un ohonynt yn y dyfodol agos. Mae'r materion a amlygwyd gan archwiliad HMCPSI yn parhau mewn perthynas ag amlygu achosion ar y system rheoli achos, cydymffurfio â thargedau rhifiadol ac ansawdd llythyron Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr. Fodd bynnag, mae'r Ardal yn gweithio'n galed i wella perfformiad o ran yr agweddau hyn.

Hefyd, mae'n werth nodi y cafwyd rhywfaint o lithrant yn y broses o weithredu'r System Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod a gallai hyn awgrymu nad yw'r gwaith cynllunio ar y cyd mor effeithiol â dulliau rheoli mewnol.

Mae'r Tîm Rheoli Ardal (AMT) yn cydnabod pwysigrwydd cyfundrefn o berfformiad cadarn a gall ddangos bod rheolwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am berfformiad. Caiff y cynllun sicrhau ansawdd gwaith achos ei gymhwyso'n gadarn ac mae'r Ardal yn aml yn gwneud gwaith samplu ar hap mewn perthynas â MG3s (y ffurflen a ddefnyddir i gofnodi cyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo) ac achosion sensitif fel y gall hyrwyddwyr ac arbenigwyr nodi tueddiadau. Mae'r pecyn data a ddefnyddir gan y Bwrdd Rheoli Ardal  hefyd yn gadarn, ond ceir prinder gwaith nodi tueddiadau a meincnodi yn erbyn perfformiad Ardaloedd cyfatebol.  Mae gwaith monitro CMS hefyd yn anghyson rhwng unedau. Serch hynny, mae canlyniadau llwyddiannus yn gwella ar y cyfan ac maent yn parhau i berthyn i'r ystod perfformiad ardderchog o ran cyhuddo statudol, llysoedd ynadon, Llys y Goron ac achosion sensitif.

Mae gwaith dadansoddi perfformiad ar y cyd yn llai effeithiol. Er bod y gwaith a wneir ar y cyd mewn perthynas â'r cynllun cyhuddo (yn cynnwys y defnydd o ddata Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn) yn gadarn, mae angen trafod ymhellach â phartneriaid y system cyfiawnder troseddol (CJS) ynghylch materion fel NWNJ a pherfformiad y Cod i Ddioddefwyr.

Mae'r CPS yn chwarae ei ran i gynnal perfformiad ar y cyd o fewn yr ystod dderbyniol o ran troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt a chyrhaeddwyd targedau ar y cyd o ran atafaelu asedau. Fodd bynnag, gwnaeth perfformiad PYO  o safbwynt amseroldeb waethygu'n amlwg drwy gydol 2006-07 ac nid yw'n agos at y targed o bell ffordd. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol wedi gweithio'n galed i nodi'r materion perthnasol ac mae'r CPS yn chwarae rôl ganolog yn y gwaith o ddatblygu systemau i wella perfformiad ar y cyd.

Mae gan yr Ardal dîm profiadol o gyfreithwyr medrus sy'n gwneud penderfyniadau cyfreithiol cadarn mewn perthynas â throseddau cyffredin. Caiff achosion sensitif eu dyrannu a'u cynnal yn briodol, a chaiff polisi'r CPS ei gymhwyso'n briodol. Mae penderfyniadau i ddirwyn achosion i ben yn briodol ac yn amserol, a cheir prosesau ymgynghori cywir yn amlach na pheidio. O ganlyniad, dim ond ychydig o achosion a gaiff eu gwrthod fel rhai 'dim achos i'w ateb'.

Caiff canlyniadau aflwyddiannus eu dadansoddi'n gadarn gan Benaethiaid Unedau, a chaiff tueddiadau eu hystyried mewn cyfarfodydd perfformiad misol gyda Phrif Erlynydd y Goron (CCP) a'r Rheolwr Busnes Ardal (ABM). Caiff agweddau ar gyfer gwella ac enghreifftiau o arfer da eu lledaenu mewn cyfarfodydd tîm effeithiol a thrwy Gylchlythyr Wythnosol Gogledd Cymru.  Rhoddir adborth i gyfreithwyr unigol lle y bo angen.

Mae systemau gwaith achos effeithiol sy'n fwyaf llwyddiannus wrth sicrhau y caiff y camau cywir eu cymryd ar yr adeg gywir. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cyfraddau cymeradwy o dreialon aneffeithiol. Fodd bynnag, ni all yr Ardal ddibynnu ar dderbyn ffeil lawn yr heddlu ar amser ar ôl ple dieuog, hyd yn oed pan fydd gweithwyr achos y CPS yn mynd ar drywydd y ffeil. Gwnaed rhywfaint o waith ar y cyd i wella amseroldeb a rhoddwyd proses newydd ar waith i leihau cyfran y traddodebau a gaiff eu rhyddhau am nad yw'r erlyniad yn barod. Fodd bynnag, mae ein 'gwiriadau realiti' yn cadarnhau bod y broblem yn parhau a'i bod yn amlwg yn effeithio'n negyddol ar gyfradd y treialon chwâl a'r treialon a gaiff eu gadael, sy'n destun pryder i bawb.

Caiff achosion eu cyflwyno'n dda yn y llys ac mae eiriolwyr yn hyrwyddo dull effeithiol o ddatblygu achosion. Mae'r Ardal yn perfformio'n  gymharol dda mewn perthynas ag amseroldeb o adeg y cyhuddiad i'r gwarediad, er y gellid gwneud mwy i sicrhau bod tystion ar gael mewn pryd ar gyfer ymddangosiadau cyntaf yn y llysoedd ynadon a gwrandawiadau rheoli ple ac achos yn Llys y Goron.

Caiff prosesau datgelu eu rheoli'n dda mewn achosion yn Llys y Goron ac mae'r Ardal yn cydymffurfio ar y cyfan â'i dyletswyddau datgelu ym mhob maes. Fodd bynnag, nid yw'r broses o ymdrin â deunydd nas defnyddiwyd yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau diweddar yn achosion y llysoedd ynadon a dim ond ychydig o hyfforddiant ar y cyd a gafwyd.

Caiff adnoddau eu rheoli'n dda, a daw'r gwariant heb ei neilltuo ar gyfer 2006-07 o fewn yr ystod perfformiad ardderchog. Bu gorwariant sylweddol ar gostau erlyn ond mae'r Ardal yn perfformio'n dda mewn perthynas â lleoli a defnyddio staff, ac mae'n rheoli salwch staff yn dda.

Mae uwch reolwyr yn hyrwyddo deialog iach â staff, sydd, yn ei dro, yn meithrin lefel uchel o gorfforaeth. Ceir tystiolaeth glir bod materion 'Urddas yn y Gweithle' yn cael eu hyrwyddo a bod yr Ardal yn cydymffurfio â'r Cynllun Cydraddoldeb Unigol. Mae hyn yn gyson â'r gwaith cadarn a wneir i wella ymgysylltiad â'r gymuned ac i nodi'r angen i gysylltu'r cyfryw waith â gwelliannau busnes craidd. Cydnabyddir cyfraniadau unigol da gan staff ac mae hyn hefyd yn effeithio ar forâl. O ganlyniad, cafwyd perfformiad cymeradwy gan CPS Gogledd Cymru yn arolwg staff 2006, gan ddangos gwelliant ers 2004 mewn llawer o agweddau allweddol.

**Cyfeiriad teithio**

Mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol ers yr OPA diwethaf. Cafwyd gwelliant mewn nifer o agweddau allweddol ac mae'r Ardal mewn sefyllfa dda i adeiladu ar hyn. Mae'r arweinyddiaeth gadarn (a aseswyd yn 'Ardderchog') a sgorau da mewn agweddau ar waith achos yn rhoi sylfaen gadarn iddi wella'r agweddau hynny sy'n 'Weddol' o hyd yn ôl yr asesiad.

Yn sgîl ein canfyddiadau, mae perfformiad cyffredinol Gogledd Cymru yn **DDA**.

| **ASESIAD CYFFREDINOL** | **DA** | | |
|---|---|---|---|

| **Agweddau critigol** | **Lefel yr asesiad** | | |
|---|---|---|---|
| | **OPA 2005** | **OPA 2007** | **Cyfeiriad teithio** |
| Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron | Da | **Ardderchog** | **Wedi gwella** |
| Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Arweinyddiaeth | Gweddol | **Ardderchog** | **Wedi gwella** |
| **Lefel gyffredinol yr asesiad critigol** | | **Da** | |
| Datblygu achosion yn y llys | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |
| Achosion sensitif a throseddau casineb | Ardderchog | **Ardderchog** | **Sefydlog** |
| Datgelu | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Terfynau amser cadwraeth | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Cyflwyno newid | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |
| Rheoli adnoddau | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Rheoli perfformiad er mwyn gwella | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |
| Sicrhau hyder y gymuned | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |
| **ASESIAD CYFFREDINOL** | Gweddol | **DA** | |

# D AGWEDDAU DIFFINIOL

| 1 GWNEUD PENDERFYNIADAU CYN CYHUDDO: RHEOLI A GWIREDDU'R MANTEISION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |

**1A Mae'r Ardal yn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo yn gweithredu'n effeithiol yng nghanolfannau cyhuddo'r heddlu a chaiff ei dogfennu a'i chofnodi'n gywir**

- Mae erlynwyr yn darparu cyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn Llanelwy (Uned Ganolog) a Chaernarfon (Uned Orllewinol); dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener yn Wrecsam (Uned Ddwyreiniol) a dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yn yr Wyddgrug (Uned Ddwyreiniol). Mae pob uned yn cau am ginio am awr yn dibynnu ar yr apwyntiadau a bennwyd ac y cytunwyd arnynt ymlaen llaw gyda'r rhingyll yn y ddalfa. Mae system apwyntiadau electronig ar waith a gaiff ei rheoli gan yr heddlu yn yr Unedau Dwyreiniol a Chanolog a chan y CPS yn yr Uned Orllewinol. Trefnir apwyntiadau am 45 munud yn yr Unedau Canolog a Gorllewinol ac am 30 munud yn yr Uned Ddwyreiniol; a chedwir rhai sesiynau ar gyfer achosion brys yn y ddalfa.

- Er y rhoddir y mwyafrif o'r cyngor cychwynnol wyneb yn wyneb (74.7%), mae cyfleusterau cyswllt fideo hefyd i alluogi swyddogion o Gaergybi a Dolgellau i gysylltu â chanolfan gyhuddo Caernarfon i gael cyngor a phenderfyniadau. Mae'r heddlu a'r CPS yn fodlon bod digon o gyngor a phenderfyniadau ar gael, a chaiff hyn ei adolygu'n barhaus yng nghyfarfodydd Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad (PTPM).

- Mae systemau ar waith i sicrhau bod swyddogion yn ceisio cyngor yn gynnar; mae gan bob uned 'borthgeidwad' yr heddlu i sicrhau mai dim ond achosion priodol a gaiff eu cyfeirio at erlynwyr er mwyn cael penderfyniad. Mae ceisiadau amhriodol yn brin, ond lle y ceir anghytundeb caiff hwn ei ddatrys gan y Ditectif Brif Arolygydd a Phennaeth yr Uned. Rhoddwyd nodyn briffio i bob erlynydd er mwyn datrys anghydfodau, a gaiff ei gymhwyso os bydd anghytundeb o'r fath. Caiff pob cais, mater ac unrhyw apêl ei nodi ar gofnod a lle y bydd unrhyw faterion yn codi, defnyddir y cofnod i lywio trafodaethau mewn cyfarfodydd PTPM.

- Nodir achosion arbenigol gan y porthgeidwad ac fe'u cyfeirir at Bennaeth yr Uned lle y bo'n briodol, fel y gellir eu dyrannu i gyfreithiwr arbenigol. Mae uned diogelu teuluoedd yr heddlu yn cyfeirio achosion cam-drin plant yn uniongyrchol at y cyfreithiwr priodol er mwyn cael cyngor cyhuddo pan roddir mechnïaeth. Dyrennir sesiwn cyhuddo ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth fel y gall yr erlynydd roi ystyriaeth briodol iddynt. Pe bai unrhyw achos arbenigol yn gofyn am sylw ar frys gellir ei gyfeirio at yr erlynydd ar ddyletswydd a all gyfeirio at nifer o gysylltiadau i gael cyngor arbenigol, er mwyn datblygu'r achos yn ddi-oed.

- Yr heddlu sy'n goruchwylio cydymffurfiaeth â chyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo, ynghyd â rheoli mechnïaeth. Yn ogystal, mae'r CPS yn monitro cyngor a phenderfyniadau erlynwyr ac mae'r ddwy asiantaeth yn cyflwyno eu canfyddiadau i gyfarfodydd PTPM er mwyn eu rhannu a'u

trafod. Gwneir gwaith monitro o'r CMS mewn perthynas ag achosion nas penderfynwyd arnynt eto; fodd bynnag mae rhai achosion nas penderfynwyd arnynt o hyd yng nghofnodion yr Uned Ganolog a'r Uned Ddwyreiniol y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae angen i'r Ardal ystyried a ddylai weithredu rhai o brosesau'r Uned Orllewinol o ran gwirio CMS yn yr Uned Ganolog a'r Uned Ddwyreiniol.

- Mae pob un o'r canolfannau cyhuddo yn gallu defnyddio'r CMS er mwyn galluogi'r erlynydd ar ddyletswydd i gofnodi penderfyniadau cyn cyhuddo (PCD) a chyngor ar y ffurflen briodol (MG3) ar yr adeg y rhoddir cyngor. Yn 2006-07 dim ond 67.3% o ymgynghoriadau PCD a gofnododd yr Ardal ar y CMS, fodd bynnag, mae'n dangos tuedd sy'n gwella ac ym mis Mawrth 2007, cofnodwyd 99.2%. Cadarnhaodd y gwiriadau realiti a wnaed fod yr MG3 wedi'i chofnodi'n gywir mewn 70% o achosion cyn cyhuddo ac mewn 100% o achosion roedd ethnigrwydd a rhyw wedi'u cofnodi'n gywir pan ddarparwyd y manylion hyn gan y sawl a ddrwgdybiwyd.

- Mae gan yr Ardal bwynt cyswllt penodol yn CPS Direct (CPSD), a fu ar waith ers cyflwyno'r cynllun cyhuddo statudol. Fe'i cynhwyswyd yn y tîm a gynhaliodd yr adolygiad ôl-weithredu o'r cynllun cyhuddo statudol ac mae'n cadw cyswllt agos â Phenaethiaid Unedau, gan roi data perfformiad perthnasol iddynt. Roedd perfformiad mewn perthynas â chofnodi ffurflenni MG3 a gynhyrchwyd gan CPSD yn 87% yn 2006-07 yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol o 72%.

- Mae system rhybuddio amodol ar waith ledled Gogledd Cymru. Fe'i cyflwynwyd yn yr Uned Ganolog ym mis Rhagfyr 2006, yn yr Uned Orllewinol ym mis Ebrill 2007 ac yn yr Uned Ddwyreiniol ym mis Mai 2007. Darparwyd hyfforddiant i erlynwyr ar ddyletswydd, rhingylliaid yn y ddalfa a swyddogion eraill yr heddlu a chafodd rhybuddion amodol eu cynnwys yn y broses fisol o fonitro ffeiliau. Cofnodwyd 23 o rybuddion amodol ar gyfer 2006-07.

### 1B Mae'r Ardal yn sicrhau bod cyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, safonau cyhuddo a chanllawiau polisi

- Mae'r Ardal yn sicrhau bod pob cyfreithiwr yn ymwybodol o bolisïau lleol a chenedlaethol ac yn cydymffurfio â hwy.

- Mae pob cyfreithiwr, y CCP a'r ABM wedi cael hyfforddiant drwy'r Rhaglen Erlynydd Rhagweithiol ac mae pob cyfreithiwr yn ymgymryd â rhaglen barhaus o hyfforddiant ar lefel genedlaethol a lleol gan arbenigwyr yr Ardal. Dosberthir cylchlythyrau polisi gan hyrwyddwyr ac fe'u cyhoeddir yng Nghylchlythyr Wythnosol Gogledd Cymru. Mae Penaethiaid Unedau yn cynnal prosesau samplu ar hap mewn perthynas â chydymffurfio fel rhan o'u gwiriadau misol sy'n nodi unrhyw fethiannau mewn modd effeithiol.

- Mae erlynwyr yn ystyried y broses o atafaelu ac atal asedau a gorchmynion atodol eraill ym mhob achos perthnasol. Mae Penaethiaid Unedau yn monitro hyn fel rhan o'r broses wirio fisol a monitro eiriolwyr; rhoddir adborth priodol i erlynwyr. Rhoddwyd hyfforddiant i bob erlynydd ar broses ddatgelu ymlaen llaw a'r Ddeddf Elw Troseddau (yn cynnwys cyflwyniadau gan Bennaeth Uned Ymchwil Ariannol Heddlu Gogledd Cymru). Datgelodd y gwiriadau realiti, yn y rhan fwyaf o achosion, yr ystyriwyd materion perthnasol yn ymwneud â dioddefwyr a thystion.

- Mae systemau monitro da ar waith; mae'r Penaethiaid Unedau yn cynnal proses samplu ar hap fisol o amrywiaeth o ffeiliau, yn unol â rhestr ragnodedig, ac maent yn defnyddio'r ffurflenni sicrhau ansawdd achosion i roi adborth ar enghreifftiau o berfformiad da a meysydd i'w gwella. Mae Penaethiaid Unedau yn rhoi adborth ychwanegol sy'n deillio o waith dadansoddi canlyniadau anffafriol a gwybodaeth PTPM.

- Caiff nifer o ffeiliau dim camau pellach (NFA) eu samplu ar hap a chaiff adroddiadau PTPM eu dadansoddi i nodi nifer yr achosion NFA a'r rhesymau drostynt, a chaiff y rhain eu trafod mewn cyfarfodydd PTPM. Mae'r Ardal yn ymwybodol bod ei chyfradd NFA yn uchel ar gyfer 2006-07, sef 35.3% yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol o 31.9%, a mynegodd ei phryderon yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) a'r PTPM. Cytunwyd y byddai'r heddlu yn penodi porthgeidwaid i wella perfformiad. Mae cyflwyno'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ffeiliau a chredir bod y gyfradd NFA bellach yn dangos gwelliant. Ni chaiff achosion lle mae'r heddlu yn penderfynu peidio â chymryd camau pellach cyn y penderfyniad cyn cyhuddo eu dadansoddi ac nid oes systemau ar waith i ddadansoddi achosion nad ydynt byth yn cyrraedd y CPS.

### 1c Gall yr Ardal ddangos manteision ei chyfraniad at y broses o wneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 13.1% | 13.7% | 11.0% | 13.1% | 18.2% | 9.3% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 72.2% | 73.5% | 68.0% | 66.5% | 63.4% | 74.8% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 18.8% | 18.8% | 23.0% | 22.2% | 29.4% | 17.9% |

- Caiff bron bob un o fanteision PCD eu gwireddu. Rhagorwyd ar bob un o'r targedau yn 2006-07 ac eithrio cyfradd yr achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon, sef 13.7%, a oedd o fewn trwch blewyn i gyrraedd y targed cenedlaethol o 11%; ond roedd yn well na'r perfformiad cenedlaethol, sef 15.7%.

- 81.4% oedd cyfran yr achosion PCD a arweiniodd at gollfarn yn 2006-07; roedd y ffigur hwn yn well na chanran y perfformiad cenedlaethol cyfartalog sef 78.0%.

- Mae'r CPS, ynghyd â'r heddlu, yn gwneud defnydd da o'r adroddiadau perthnasol i ddeall y canlyniadau mewn achosion PCD; ystyrir perfformiad ar lefel uned a chaiff ei feincnodi yn erbyn Ardaloedd CPS tebyg a rhywfaint o ddata cenedlaethol. Gwneir defnydd da hefyd o'r holl wybodaeth PTPM ac mewn un uned gwneir gwaith dadansoddi da o'r CMS.

- O ran cynnal dadansoddiad ar y cyd o'r broses o weithredu'r cynllun cyhuddo, mae systemau da ar waith, ac mae'r heddlu a'r CPS yn cyflawni rôl weithredol i sicrhau bod y system yn effeithiol. Mae strwythurau ar waith i sicrhau bod y camau a gymerir yn cael eu cyfleu i staff yn brydlon.

| 2 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN Y LLYSOEDD YNADON | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

## 2A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Dirwyn i ben ac achosion o rwymo | 10.8% | 10.1% |
| Dim achos i'w ateb | 0.2% | 0.1% |
| Gwrthodiad ar ôl treial | 1.9% | 1.8% |
| Traddodebau a ryddhawyd | 0.2% | 0.1% |
| Gwarantau | 2.6% | 0.8% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 84.3% | 87.2% |

- Yn 2006-07, 87.2% oedd cyfran y canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon, yn erbyn 84.3% yn genedlaethol. Mae'n cyfateb i welliant o un y cant ar gyfradd y canlyniadau llwyddiannus ers 2004-05, yng nghyd-destun gostyngiad o chwech y cant yn llwyth achosion y llysoedd ynadon dros yr un cyfnod.

- Dengys y tabl uchod fod yr Ardal wedi perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn perthynas â nifer yr achosion sy'n dirwyn i ben, dim achos i'w ateb, a gwrthod ar ôl treial yn 2006-07. Mae'r lefel hon o berfformiad yn welliant mewn perthynas â phob un o'r canlyniadau hyn ers 2004-05. Mae'r un peth yn wir am draddodebau a ryddhawyd a oedd yn cyfrif am 0.1% o gyfanswm yr achosion yn y llysoedd ynadon yn 2006-07, ac 1.7% o achosion a gaiff eu gohirio er mwyn eu traddodi (yn erbyn 2.5% yn genedlaethol).

- Yn y rhan fwyaf o achosion ymgynghorir â'r heddlu ynghylch y broses arfaethedig o ddirwyn achosion i ben. Mae'r gostyngiad yng nghyfradd yr achosion a gafodd eu dirwyn i ben ers yr OPA diwethaf yn awgrymu y caiff y penderfyniad i ddirwyn achosion i ben ei wneud yn briodol, a chaiff hyn ei gadarnhau gan ein gwiriadau realiti. Er bod cyfreithwyr unigol yn cadw cyfrifoldeb am bob penderfyniad i ddirwyn achos i ben, mae angen caniatâd ymlaen llaw gan arbenigwr neu Bennaeth Uned cyn y gellir dirwyn achos sensitif neu achos o drosedd casineb i ben, neu gellir derbyn ple amgen (neu sail gyfyngedig ple) sy'n lleihau neu'n dileu'r elfen gasineb.

- Mae'r Ardal yn ceisio lleihau cyfradd y canlyniadau aflwyddiannus lle y bo'n bosibl. I'r perwyl hwn, mae unedau yn llunio rhestr fisol o bob canlyniad aflwyddiannus, yn cynnwys gwrthodiad ar ôl treial. Yn dilyn hynny caiff yr achosion eu dadansoddi ar lefel uned a bydd y Pennaeth Uned yn cyflwyno adroddiad arnynt yn y cyfarfodydd perfformiad misol gyda'r CCP a'r ABM. Yna caiff systemau eu haddasu i ddatrys problemau. Er enghraifft, cafodd y broses o baratoi traddodebau ei hailgynllunio yn ddiweddar i leihau cyfran y traddodebau a ryddhawyd.

- Caiff tueddiadau a materion a nodir yn y cyfarfodydd perfformiad misol eu rhannu â Phenaethiaid Unedau eraill, a'u rhannu'n allanol â rheolwyr yr heddlu yng nghyfarfodydd misol rhanbarthol y PTPM. Mae hyn yn caniatáu i bartneriaid wella systemau drwy gamau cydgysylltiedig. Caiff cyd-weithgorau eu sefydlu hefyd i ddelio â materion penodol, fel y system paratoi traddodebau. Mae'r CCP hefyd yn gadeirydd ar is-grŵp ymchwilio a threial yr LCJB, sy'n helpu i sicrhau bod asiantaethau eraill yn cael eu hysbysu am faterion perfformiad ehangach. Mae gwaith ar y cyd â ffocws mwy penodol fel y gwaith a wneir mewn perthynas â'r Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref sydd ar y gweill hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau.

- Caiff staff eu hysbysu o gasgliadau'r cyfarfodydd perfformiad misol yn y cyfarfodydd uned, a gynhelir cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny, ac yn ddelfrydol ar yr un diwrnod. Caiff yr adroddiad perfformiad uned a bwrdd syniadau'r Ardal eu cyflwyno mewn cyfarfodydd uned hefyd. Darperir y wybodaeth ddiweddaraf am brif berfformiad mewn modd anffurfiol drwy ymgyrch posteri effeithiol ac eitemau cryno yng Nghylchlythyr Wythnosol Gogledd Cymru. Ymdrinnir â materion perfformiad manylach mewn cyfarfodydd tîm lleol ar wahân ar gyfer erlynwyr a staff gweinyddol.

- Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt yn dangos bod yr ardal cyfiawnder troseddol yn rhagori ar y targed 11.4% yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2006. Roedd collfarnau yn cyfrif am 47.7% o'r cyfanswm, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 49%. Fodd bynnag, dylid ystyried perfformiad yng ngoleuni'r llwyth achosion sy'n gostwng yn y llysoedd ynadon a'r ffaith bod 23.4% o achosion (collfarnau posibl) wedi'u gwyro i hysbysiadau cosb benodedig, yn erbyn dim ond 9.6% yn genedlaethol.

- Mae perfformiad PYO yr ardal cyfiawnder troseddol wedi gwaethygu o 59 diwrnod yn ystod y chwarter treigl i fis Mehefin 2006, i 84 diwrnod yn ystod y chwarter treigl i fis Mawrth 2007. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol â'r targed cenedlaethol o 71 diwrnod. Ym mis Mai 2007, noddodd yr LCJB gynhadledd gydasiantaethol i ddadansoddi'r materion yn ymwneud â pherfformiad sy'n dirywio ac mae bellach wedi sefydlu is-grŵp i ddelio â hwy. Mae'r CPS a'r heddlu wedi cwrdd i drafod y mater ar y lefel uchaf yn lleol, ac mae arweinydd ieuenctid yr Ardal yn cynnal cyswllt agos â chyd-swyddogion yr heddlu i wella'r broses o amlygu achosion a lleihau'r amser a gymerir o arestio i gyhuddo. Mae mwy o bwyslais ar rannu gwybodaeth rhwng yr asiantaethau partner ac mae'r Ardal bellach yn disgwyl i berfformiad wella'n sylweddol yn y byrdymor.

## 2B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 48.7% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 37.3% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 14.0% |
| Cyfradd treialon a gaiff eu gadael | 22.5% | 30.6% |

- Caiff yr holl achosion a ymleddir yn y llysoedd ynadon eu dyrannu gan reolwr busnes yr uned o dan oruchwyliaeth Pennaeth yr Uned. Mae'r system yn llwyddo i sicrhau bod achosion yn cael eu cynnal gan arbenigwyr lle y bo'n briodol, a chan y cyfreithiwr a roddodd y cyngor cyhuddo lle y bo'n bosibl. Caiff CMS ei monitro i sicrhau y dyrennir cyfrifoldeb yn gyfartal.

- Mae'r atebolrwydd a ddarperir gan 'berchenogaeth' o achosion yn galluogi'r Ardal i weithredu cynllun sicrhau ansawdd gwaith achos (CQA) gwell sy'n golygu bod Penaethiaid Unedau yn rhoi adborth ysgrifenedig cadarn ar faterion manwl fel ansawdd arnodiad ffeil yn erbyn safon ysgrifenedig yr Ardal. Mae'r dadansoddiad hwn yn ategu'r cwestiynau CQA safonol sy'n ymwneud ag ansawdd ac amseroldeb y broses o adolygu a pharatoi achosion.

- Dengys ein gwiriadau realiti fod adolygiadau cyn treial yn amserol ac yn ddigonol ar y cyfan pan dderbynnir y ffeil lawn ar amser. Roedd problemau ynghylch adolygiad cyn traddodi sydd bellach wedi'u datrys gan y system paratoi traddodebau newydd, mwy hyblyg.

- Nid oes gan yr Ardal swyddogion datblygu achosion dynodedig. Cyflawnir y swyddogaeth datblygu achosion gan reolwyr busnes unedau, gweithwyr achos ac weithiau, cyfreithwyr. Mae Penaethiaid Unedau a rheolwr y tîm gofal tystion yn mynd i gyfarfodydd datblygu achosion rhanbarthol bob dau fis sy'n canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol y llysoedd ynadon yn hytrach nag achosion unigol sy'n mynd rhagddynt.

- Mae gweithwyr achos dynodedig yn edrych ar ansawdd ffeiliau'r heddlu. Caiff ffeiliau diffygiol eu cyflwyno i Bennaeth yr Uned, sydd wedyn yn trafod y mater gyda rheolwyr yr heddlu yn y cyfarfod PTPN nesaf. Mae hyn wedi arwain at welliant yn ansawdd ffeiliau.

- Fodd bynnag, mae gwiriadau realiti yn dangos bod amseroldeb yn broblem mewn perthynas â derbyn ffeiliau llawn gan yr heddlu erbyn y terfyn amser penodedig, sy'n rhwystro'r broses o adolygu a pharatoi achosion ar amser. Mae'r Ardal wedi nodi hyn fel y prif wendid yn y system datblygu achosion ac mae wedi codi'r mater dro ar ôl tro gyda phartneriaid ar bob lefel. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd o hyd i ateb llawn eto ac mae cyfradd y treialon a gaiff eu gadael yn parhau i fod yn uchel iawn o ganlyniad i hynny. Nid yw'r effaith ar y gyfradd athreulio wedi'i hasesu gan yr Ardal.

- Mae'r Ardal wedi nodi mai darparu ffeiliau yn hwyr yw'r brif risg sy'n gysylltiedig â chyflwyno Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod (CJSSS). Mae wedi annog yr LCJB i oedi'r broses o weithredu'r ystafell lys CJSSS gyntaf o fis Awst i fis Medi 2007, sy'n fethiant i gydymffurfio â'r amserlen ragnodedig. Fodd bynnag, dylid cyflwyno'r broses yn llawn erbyn mis Tachwedd 2007, sy'n cydymffurfio â'r amserlen.

- Cynhelir achosion ieuenctid gan arbenigwyr, a rhoddir y rhan fwyaf o gyngor cyn cyhuddo ganddynt hwy. Mae cydgysylltydd ieuenctid yr Ardal yn monitro amlder ac ansawdd gwaith cydasiantaethol i wella cyflymder achosion ieuenctid. Mewn un uned mae'r arbenigwr yn cwrdd â'i swyddog cyfatebol yn yr heddlu bob pythefnos i adolygu pob achos ieuenctid sy'n mynd rhagddo. Caiff strategaethau achos eu datblygu ar y cyd i sicrhau y gwneir cymaint o waith ymchwil â phosib cyn arestio. Defnyddir cyfarfodydd defnyddwyr y llys ieuenctid i olrhain achosion. Fodd bynnag, mae perfformiad o ran PYO wedi gwaethygu'n ddiweddar.

- Yn 2006-07, roedd 48.6% o dreialon llysoedd ynadon yn effeithiol. Er bod hyn wedi gwaethygu ychydig o gymharu â'r gyfradd yn 2005-06, sef 50.2%, roedd yn well o hyd na'r cyfartaledd

cenedlaethol (43.9%) a dim ond 12 o Ardaloedd a berfformiodd yn well. O ran treialon aneffeithiol, roedd cyfradd Gogledd Cymru yn 14% yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol o 18.9% yn 2006-07, a dim ond tair Ardal a berfformiodd yn well. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd wedi gwaethygu ychydig o gymharu â'r gyfradd o 12.7% a gyflawnwyd yn 2005-06. Parhaodd cyfradd y treialon chwâl yn gymharol sefydlog dros yr un cyfnod, gan godi o 37.1% i 37.3% a oedd yn cyfateb yn union i'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Cyfradd y treialon a gafodd eu gadael oedd 30.5% yn 2006-07, yn erbyn 22.5% yn genedlaethol. Dim ond pedair Ardal a berfformiodd yn waeth. Caiff hyn ei egluro gan y strategaeth o reoli cyfradd y treialon aneffeithiol drwy wneud cais i adael achosion mewn da bryd pan gaiff y broses o dderbyn y ffeil lawn ei hoedi'n sylweddol. Ni fydd angen i dystion ddod i'r llys yn ddiangen felly, a chred yr Ardal eu bod yn fwy tebygol o fynd i'r treial o ganlyniad i hynny.

- Mae pob uned yn paratoi adroddiad ar dreialon chwâl a threialon aneffeithiol i'w gyflwyno i'r CCP a'r ABM yn yr adolygiadau perfformiad misol. Mae'r adroddiadau yn gadarn ac yn nodi'r achosion yn glir. Mae'r CCP yn trosglwyddo materion eang i is-grŵp ymchwilio a threial yr LCJB ac mae Penaethiaid Unedau yn codi materion manwl ac achosion unigol mewn cyfarfodydd PTPM misol gyda rheolwyr yr heddlu. Trafodir y data hefyd yn y cyfarfodydd datblygu achosion bob dau fis.

- Mae Penaethiaid Unedau yn rhoi adborth ar faterion datblygu achos i erlynwyr a staff gweinyddol yng nghyfarfodydd yr uned a'r tîm. Mae'r cylchlythyr hefyd yn codi materion perthnasol.

- Mae'r Ardal wedi gweithio'n galed i wella ei defnydd o'r CMS. Ym mis Mawrth 2007, 62% oedd cyfradd yr achosion a gwblhawyd yn y llysoedd ynadon o fewn diwrnod, a 61.6% oedd cyfradd y canlyniadau gwrandawiadau a gofnodwyd o fewn un diwrnod. Dim ond saith Ardal a berfformiodd yn well yn y ddwy dasg. Cyfran yr adolygiadau yn y llysoedd ynadon oedd 81.8%, sy'n cymharu'n ffafriol iawn â'r perfformiad cenedlaethol.

| 3 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN LLYS Y GORON | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Ardderchog** | **Wedi gwella** |

### 3A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| Canlyniadau achosion yn Llys y Goron | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr | 13.1% | 9.1% |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 1.4% | 0.9% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 6.5% | 6.6% |
| Gwarantau | 1.3% | 0.6% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 77.7% | 82.9% |

- Yn 2006-07, roedd cyfradd y canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron (82.9%) o fewn yr ystod perfformiad ardderchog ac roedd yn well o lawer na'r perfformiad cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd wedi gwaethygu ychydig o gymharu â'r gyfradd ar adeg yr OPA diwethaf yn 2004-05, sef 83.3%.Mae hyn yng nghyd-destun cynnydd o 28.3% yn nifer yr achosion a draddodwyd neu a anfonwyd i Lys y Goron dros yr un cyfnod.

- Mae'r tabl uchod yn dangos er i'r Ardal berfformio ychydig yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn perthynas â rhyddfarnau gan reithgor yn 2006-07, perfformiodd yn well o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn perthynas â rhyddfarnau dan orchymyn barnwr (JOAs) a rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr (JDAs). Fodd bynnag, mae cyfradd y canlyniadau aflwyddiannus wedi gwaethygu ychydig ers yr OPA diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i JOAs.

- Caiff adroddiadau canlyniadau anffafriol cadarn a manwl eu paratoi gan Benaethiaid Unedau mewn perthynas â phob JOA a JDA. Cyflwynir y rhain i'r CCP a'r ABM eu hystyried yn ystod y cyfarfodydd perfformiad misol. Mae'r Ardal wedi edrych ar y gyfradd JOA sy'n dirywio ac mae'n fodlon nad yw'r broblem wedi'i hachosi gan unrhyw fethiant systematig. Yn arbennig, mae'n fodlon nad yw'r broblem yn ymwneud â'r cynllun cyhuddo statudol.

- Mae cyfreithwyr yn cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau i ddirwyn achosion i ben (yn amodol ar yr angen am gyngor arbenigol o ran troseddau casineb) ond cyfarwyddir y cwnsler i gael cymeradwyaeth Pennaeth yr Uned o ran dirwyn achosion i ben yn hwyr yn y llys. Caiff yr heddlu eu holi ynghylch penderfyniadau arfaethedig i ddirwyn achosion i ben yn y rhan fwyaf o achosion ac mae'r adroddiadau misol ar ganlyniadau anffafriol yn nodi bod penderfyniadau i ddirwyn achosion i ben yn gywir ar y cyfan.

- Caiff unrhyw faterion a nodir mewn cyfarfodydd perfformiad eu codi mewn cyfarfodydd PTPM gyda rheolwyr troseddau'r heddlu a chymerir camau lle y bo'n briodol. Gwnaed gwaith

dadansoddi ar y cyd yn ddiweddar mewn perthynas â darparu ffeiliau, datgelu, tystiolaeth o ran cymeriad drwg, a rôl y cynghorydd annibynnol ar drais yn y cartref . Mae'r CCP hefyd yn codi materion yn yr is-grŵp ymchwilio a threial. Mae perfformiad mewn perthynas â phroblemau penodol yn gwella o ganlyniad i hynny, ac mae cyfradd y canlyniadau aflwyddiannus wedi gwella ers 2005-06 (er bod y perfformiad wedi gwaethygu ychydig o gymharu â pherfformiad 2004-05).

- Er gwaethaf dechrau araf i'r flwyddyn, gwnaeth yr Ardal rhagori'n sylweddol ar ei tharged lleol ar gyfer atafaelu asedau yn 2006-07. Cyflwynwyd pymtheg o orchmynion atafaelu gwerth cyfanswm o £2.76 miliwn, yn erbyn y targed o 12 gorchymyn gwerth £274,000. Mae'r Ardal eisoes ymhell ar y blaen o ran targedau 2007-08. Gellir priodoli'r lefel hon o berfformiad i ymrwymiad hyrwyddwr yr Ardal, mabwysiadu arfer da o Ardaloedd eraill, ac ymgysylltiad gweithredol ag asiantaethau partner. Mae gan ardal Gogledd Cymru strategaeth ar gyfer delio â gwaith gorfodi yn fewnol, er y ceir tuedd i ymdrin â gorchmynion atafaelu mewn arian parod cyn bod angen cymryd camau gorfodi.

- Caiff erlynwyr a staff gweinyddol eu hysbysu o faterion perfformiad mewn cyfarfodydd uned a thîm a chedwir gwybodaeth am berfformiad ar y gyriant a rennir fel bod pawb yn cael gafael arni. Trafodir yr adroddiadau canlyniadau anffafriol hefyd mewn cyfarfodydd uned misol. Mae'r cylchlythyr yn darparu diweddariadau anffurfiol ar arfer da.

### 3B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 51.4% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 40.2% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 8.4% |

- Ers ailstrwythuro i dair uned gyfunol ym mis Ebrill 2006 caiff y rhan fwyaf o achosion eu dyrannu i gyfreithiwr penodedig a fydd yn berchen ar y ffeil, sy'n unol â'r ethos perchenogaeth ffeil o'r crud i'r bedd yn yr Ardal. Mae'r system dyrannu yn sicrhau y caiff achosion sensitif eu cynnal gan arbenigwyr ac y caiff y rhan fwyaf o achosion eu rhedeg gan y cyfreithiwr a roddodd y cyngor cyhuddo. Yn yr Unedau Gorllewinol a Chanolog mae digon o Eiriolwyr Llys Uwch (HCAs) i sicrhau y caiff pob achos addas ei ddyrannu iddynt o'r cychwyn. Fodd bynnag, yn yr Uned Ddwyreiniol nid oes digon o HCAs i ddarparu gwasanaeth llawn o'r crud i'r bedd.

- Caiff ansawdd ac amseroldeb y broses adolygu, arnodi ffeiliau a pharatoi treialon ei monitro'n effeithiol gan Benaethiaid Unedau yn unol â'r system CQA ddatblygedig. Mae gwiriadau realiti yn cadarnhau bod adolygiadau Llys y Goron yn cyrraedd y safon ofynnol ar y cyfan.

- Fodd bynnag, mae'r Ardal wedi nodi materion amseroldeb mewn perthynas â pharatoi achosion a gadarnheir gan ein gwiriadau realiti. Bwriad y broses ddiweddar o drawsnewid y system paratoi traddodebau yn rhannol yw rhyddhau amser gweithwyr achos fel y gellir cyflawni gwaith paratoi achosion yn fwy prydlon, a disgwylir i amseroldeb wella o ganlyniad i hynny. Mae'r CCP yn cadeirio'r cyd-weithgor a fydd yn gwerthuso llwyddiant y system newydd.

- Ailstrwythurwyd system weinyddu Llys y Goron lleol yn ddiweddar ac megis cychwyn y mae'r tîm rhestru newydd yn yr Wyddgrug. Mae prosesau datblygu achosion newydd yn cael eu datblygu ac yn absenoldeb rolau datblygu achosion ffurfiol, mae'r Penaethiaid Unedau a'r ABM yn gwneud gwaith effeithiol wrth gysylltu â phartneriaid CJS i reoli achosion drwy'r system mewn ffordd effeithiol a phriodol.

- Mae'r cyfarfodydd datblygu achosion a gynhelir bob dau fis yn tueddu i ganolbwyntio ar waith yn y llysoedd ynadon, ond ystyrir materion Llys y Goron yn yr is-grŵp ymchwilio a threial a gadeirir gan y CCP ac y mae'r swyddog rhestru yn mynd iddo. Ystyrir materion datblygu achosion ehangach yng nghyfarfodydd grŵp defnyddwyr Llys y Goron a gynhelir bob chwe mis, sy'n fforwm effeithiol ar gyfer cydweithio.

- Prin yw nifer yr achosion yn Llys y Goron sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc. Caiff pob achos sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc ei ddyrannu i arbenigwyr sy'n sicrhau y caiff ei ddatblygu'n brydlon. Mae rheolwyr unedau yn cysylltu â'r adran restru i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

- Dirywiodd cyfran y treialon yn Llys y Goron sy'n effeithiol ryw ychydig o 51.8% yn 2005-06 i 51.4% yn 2006-07, a oedd yn parhau i fod yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 48.2%. Roedd hyn yng nghyd-destun cynnydd o 11.4% yng nghyfanswm maint llwyth achosion Llys y Goron dros yr un cyfnod.

- Yn erbyn cefndir system restru a ailstrwythurwyd yn ddiweddar, mae'r Ardal wedi gwneud yn dda i wella cyfran y treialon aneffeithiol o 10.4% yn 2005-06, i 8.4% yn 2006-07, yn erbyn 12.4% yn genedlaethol. Fodd bynnag, dirywiodd cyfran y treialon chwâl yn Llys y Goron o 37.8% i 40.2% dros yr un cyfnod. Mae hwn yn achos pryder ac ni all yr Ardal nodi unrhyw reswm dros hyn, er bod y gwaith dadansoddi wedi'i wneud.

- Darperir data ar dreialon chwâl a threialon aneffeithiol gan y llys ac fe'u hystyrir gan yr ABM a'r CCP yn yr adolygiadau perfformiad misol, ynghyd ag adroddiadau perfformiad yr uned sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o dreialon chwâl neu dreialon aneffeithiol unigol a ddarparwyd gan Benaethiaid Unedau. Mae'r Ardal yn monitro ei pherfformiad mewn perthynas â threialon chwâl a threialon aneffeithiol yn agos sy'n briodoladwy i'r erlyniad. Caiff yr holl wybodaeth hon ei throsglwyddo i'r is-grŵp ymchwilio a threial ei hystyried ymhellach, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw waith nodi tueddiadau ffurfiol yn cael ei wneud yn yr Ardal. Caiff staff eu hysbysu am ddatblygiadau mewn perthynas â materion datblygu achosion cydasiantaethol mewn cyfarfodydd uned a thîm misol.

- Mae ein gwiriadau realiti yn cadarnhau y cyflawnir gweithgareddau craidd ar y CMS ac ni nodwyd unrhyw faterion o ran cwblhau achosion mewn perthynas â gwaith Llys y Goron. Y perfformiad ar gyfer 2006-07 oedd 68.5%, fodd bynnag mae'n gwella ac ym mis Mawrth 2007 cafodd 91.8% o adolygiadau Llys y Goron eu cofnodi ar CMC, yn erbyn y targed o 90%.

| 4 DATBLYGU ACHOSION YN Y LLYS | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |

## 4A Mae'r Ardal yn sicrhau bod achosion yn cael eu datblygu ym mhob ymddangosiad llys

- Dengys gwiriadau realiti y rhoddir gwybodaeth ymlaen llaw bob amser i'r amddiffyniad yn ystod y gwrandawiad cyntaf a chyflwynir pleon yn ddi-oed fel arfer. Fodd bynnag, caiff achosion a ymleddir bob amser eu gohirio nifer o wythnosau er mwyn cadarnhau bod tystion ar gael, hyd yn oed mewn honiadau trais yn y cartref, os yw'r diffynnydd ar fechnïaeth. Caiff adolygiadau cyn treial (PTRs) eu rhestru fel arfer pan fydd y treial wedi'i bennu, er nad ydynt bob amser yn effeithiol oherwydd prin y caiff hysbysiadau sy'n ymwneud â datgelu, cymeriad drwg y diffynnydd, achlust, a thystiolaeth y cytunwyd arni eu cyflwyno cyn y PTR. Felly, mae'r rhan fwyaf o dreialon diannod a ymleddir ar gyfer troseddau cofnodadwy yn gofyn am o leiaf bedwar gwrandawiad, er bod pob gwrandawiad yn dueddol o ddatblygu'r achos ac mae'r perfformiad o ran amseroldeb yn dderbyniol.

- Nid yw dyddiadau tystion i'w hosgoi bob amser ar gael yn y gwrandawiad rheoli ple ac achos yn Llys y Goron, ond gellir cael manylion fel arfer ar y diwrnod, sy'n dileu'r angen i ohirio'n ffurfiol. Yn ei dro, mae hyn yn helpu amseroldeb cyffredinol mewn perthynas â threialon yn Llys y Goron sy'n llawer gwell na'r cyfartaledd cenedlaethol ar hyn o bryd.

- Darperir briffiadau i'r cwnsler ar amser mewn 73% o achosion yn erbyn 78.7% yn genedlaethol. Caiff perfformiad ei rwystro gan yr angen achlysurol i friffio'r cwnsler pan na fydd yr HCA a ymddangosodd yn y PCMH ar gael i gynnal y treial. Dengys gwiriadau realiti fod ansawdd y briffiadau i'r cwnsler yn amrywiol. Mewn rhai briffiadau ni ddadansoddir achosion, ac anaml y rhoddir cyfarwyddiadau ar dderbynioldeb pleon amgen.

- Caiff erlynwyr, yn cynnwys DCWs eu monitro'n systematig. Gall DCWs gysylltu â chyfreithwyr cymwys ar bob adeg ac mae o leiaf ddwy sesiwn bob wythnos ar gael i baratoi achosion y tu allan i'r llys.

- Yn Llys y Goron, caiff y cwnsler ei fonitro gan HCAs a chaiff adborth ar berfformiad ei gyfnewid ag Ardaloedd eraill. Mae'r Ardal yn ofalus wrth ddewis y bargyfreithiwr mwyaf priodol ym mhob achos, ac mae cyfreithwyr yn benodol gyfrifol am wneud hynny mewn achosion sensitif, difrifol, a chymhleth. Yn unol â'r ethos o'r crud i'r bedd, mae HCAs yn cynnal achosion priodol o'r adeg cyhuddo hyd at y treial a chânt eu monitro o leiaf yn flynyddol gan Benaethiaid Unedau.

- Caiff pob eiriolwr ei fonitro'n ffurfiol i sicrhau ei fod yn cyrraedd y llys yn brydlon ac yn ymddwyn yn broffesiynol, er bod cadernid y broses o fonitro ansawdd yn amheus am fod pob ffurflen a welwyd yn rhoi'r un sgôr i bob cyfreithiwr. Maent yn perfformio'n dda yn hyn o beth, ac yn aml yn cynorthwyo'r llys i lywio achosion yn eu blaen. Fodd bynnag, nid yw ceisiadau gan yr amddiffyniad i ohirio yn y llysoedd ynadon bob amser yn cael eu gwrthod yn gadarn.

- Nid oes unrhyw brotocolau rhestru ffurfiol gyda'r llys ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Ardal yn gweithio'n agos iawn gyda'r llysoedd, ac mae trefniadau anffurfiol yn ddigonol i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl i bob parti. Caiff dogfennaeth frys ei throsglwyddo i'r llys dros y ffacs.

- Nid yw'r Ardal yn mesur nifer y gohiriadau, ond mae'n dadansoddi data amseroldeb. Mae perfformiad yn cymharu'n dda â'r targedau cenedlaethol o ran gohiriadau ac amseroldeb, yn Llys y Goron ac yn y llysoedd ynadon.

- Roedd un gorchymyn costau a wastraffwyd yn 2006-07. Cafwyd y gorchymyn hwn yn y llysoedd ynadon a deilliodd o fethiant y cyfreithiwr a oedd yn arwain i adolygu'r ffeil yn briodol yng ngoleuni dadl amlinellol gan yr amddiffyniad.

| 5 | ACHOSION SENSITIF A THROSEDDAU CASINEB | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|---|
| | | Ardderchog | **Ardderchog** | **Sefydlog** |

### 5A Mae'r Ardal yn nodi ac yn rheoli achosion sensitif (yn cynnwys troseddau casineb[4]) yn effeithiol

- Mae'r system dyrannu achosion yn sicrhau bod arbenigwyr yn ymdrin â bron bob achos sensitif. Lle nad yw hyn yn bosibl, gall y cyfreithiwr sy'n arwain gael cyngor gan arbenigwr. Caiff penderfyniadau cyn cyhuddo sy'n ymwneud ag achosion sensitif eu gwneud weithiau gan erlynwyr ar ddyletswydd nad ydynt yn arbenigwyr, ond dim ond ar ôl ymgynghori ag arbenigwr neu Bennaeth Uned. Dengys gwiriadau realiti y caiff achosion sensitif eu hadolygu a'u harnodi'n briodol ar y cyfan, a chânt eu datblygu heb oedi diangen.

- Cedwir rhestr o 'arbenigwyr' a gall pob aelod o staff ei gweld. Mae'n dangos bod gan bob uned arbenigwr ym mhob un o'r prif agweddau sensitif, a oruchwylir gan gydgysylltydd neu hyrwyddwr Ardal. Mae'r Ardal yn fodlon y gall pob erlynydd ar ddylestwydd, cyfreithwyr, a gweithwyr achos gael cyngor arbenigol ar fyr rybudd ac yn ystod oriau busnes bob amser.

- Cymerir gofal i sicrhau y caiff yr eiriolwyr mwyaf priodol eu cyfarwyddo ym mhob achos. Mae cyfreithwyr sy'n adolygu yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd mewn achosion sensitif. Maent yn cyfeirio'n eang at brofiad gweithwyr achos, yn ogystal â chydweithwyr yn Swydd Gaer ac Ardaloedd eraill yng Nghymru, er mwyn gwneud hyn. Mae'r protocol monitro eiriolaeth lleol yn sicrhau bod pob eiriolwr a gyfarwyddir gan y CPS yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron yn cael ei fonitro.

- Gall yr Ardal ddangos bod pob arbenigwr wedi cael hyfforddiant priodol a bod cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a mentora parhaus yn cael eu nodi'n ffurfiol. Yn ogystal, mae pob erlynydd yn ymwybodol o'r angen i gael barn arbenigwr ar bob achos yn ymwneud â throseddau casineb, yn enwedig ar y cam cyn cyhuddo. Mae gan yr Ardal dîm o gyfreithwyr profiadol a medrus sy'n golygu bod gan y rhai nad ydynt yn arbenigwyr, ar y cyfan, wybodaeth weddilliol sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o agweddau arbenigol ar waith achos ac eiriolaeth.

- Gwneir gwaith samplu ar hap rheolaidd i fonitro ansawdd y broses o amlygu achosion, y nodwyd ei bod yn foddhaol. Codir y mater yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm gweinyddol a chaiff cyfreithwyr eu hatgoffa'n rheolaidd o'r angen i wirio ffeiliau am faterion sydd wedi cael eu hamlygu. Dangosodd ein gwiriadau realiti fod pob un o'r 18 o achosion sensitif a ddewiswyd wedi'u nodi felly. Roedd hyn yn cynnwys deg ffeil yn ymwneud ag achosion o ymosod a waethygir gan hil neu grefydd, a amlygwyd yn briodol er mwyn eu nodi. Fodd bynnag, dim ond mewn wyth o'r deg achos hyn y cafodd statws y dioddefwr ei amlygu'n gywir.

---

4 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth mae pob cyfeiriad yn hyn o beth at achosion sensitif yn cynnwys pob un sy'n ymwneud â throseddau casineb (troseddau casineb o ran anabledd, trais yn y cartref, troseddau homoffobig, hiliol a chrefyddol), cam-drin plant/tystion sy'n blant, trais rhywiol, troseddau traffig ffordd angheuol a gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs).

- Roedd yr Ardal wedi ymdrin â nifer o achosion proffil uchel yn ddiweddar, yn cynnwys achos angheuol o gam-drin plant a gafodd sylw cenedlaethol. Cynhaliwyd yr achos yn dda gan gyfreithiwr uned o dan oruchwyliaeth agos y CCP, a ymdriniodd â'r sylw gan y cyfryngau. Mae'r CCP yn cyflwyno llawer o'r achosion proffil uchel yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon, ac mae'n goruchwylio pob achos traffig ffordd angheuol yn ffurfiol. Mae'r Ardal wedi gwneud cynnydd sylweddol i ennyn hyder y gymuned pobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol drwy erlyn nifer o droseddau homoffobig yn effeithiol yn ddiweddar.

- Dengys cofnodion y Tîm Rheoli Ardal (AMT) fod uwch reolwyr yn mynd ati'n brydlon i ystyried adolygiadau polisi CPS ac adolygiadau thematig HMCPSI newydd, ynghyd ag ystyried yr effaith leol ar lefel uwch reolwyr. Yn dilyn hynny caiff prosesau eu hadolygu gan gydgysylltwyr a hyrwyddwyr a chaiff staff eu hysbysu o welliannau yn gyflym fel y gellir gwireddu manteision. Rhoddir cyhoeddusrwydd i adroddiadau arolygu hefyd.

- Cafodd pob achos a waethygwyd gan hil a chrefydd a gynhaliwyd yn 2006 ei ddadansoddi gan Benaethiaid Unedau. Nododd yr Ardal fod pleon euog i gyhuddiadau amgen digarchar weithiau'n cael eu derbyn yn rhy hawdd. Mae gwaith ar y cyd a hyfforddiant mewnol wedi'u cyflawni i sicrhau y caiff cyhuddiadau sy'n arwain at garchar eu cyflwyno a'u cynnal lle y bo'n briodol. Mae'r Ardal wrthi'n dadansoddi pob achos homoffobig am yr un rheswm.

- Mae Penaethiaid Unedau yn paratoi adroddiadau misol ysgrifenedig ar ganfyddiadau CQA a chanlyniadau andwyol. Yn ogystal, mae'r cydgysylltwyr trais rhywiol, trais yn y cartref a throseddau casineb yn paratoi adroddiadau chwarterol i'r CCP yn amlinellu meysydd sy'n achosi pryder ac arferion da a nodwyd gan eu gwaith samplu ar hap a'u dadansoddiad o ganlyniadau. Caiff erlynwyr, yr heddlu a'r llysoedd eu hysbysu o faterion a phwyntiau dysgu. Mae cyfradd y canlyniadau llwyddiannus wedi gwella ar y cyfan o 70.9% yn 2005-06 i 72% yn 2006-07, yn erbyn 67.2% yn genedlaethol, ac mae'n parhau i fod yn well na'r targed cenedlaethol o 68%. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r gwelliant mewn canlyniadau llwyddiannus o ran achosion trais yn y cartref o 68.7% i 72.1% dros yr un cyfnod.

- Ymgymerir â gweithgareddau cydasiantaethol amrywiol i hyrwyddo'r broses o amddiffyn plant, ac mae'r CPS wedi'i gynrychioli ar y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant. Fodd bynnag, nid yw'r mater amddiffyn plant wedi'i gynnwys yn benodol yng nghynlluniau'r Ardal eto.

| 6 DATGELU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

### 6A Ceir cydymffurfiaeth â dyletswyddau datgelu'r erlyniad

- Dengys ein gwiriadau realiti fod yr Ardal yn cydymffurfio â'i dyletswyddau datgelu cychwynnol a pharhaus yn y rhan fwyaf o achosion. Ym mhob achos perthnasol, ymdriniwyd â deunydd sensitif a deunydd trydydd parti yn gywir hefyd. Mae cofnodion imiwnedd budd y cyhoedd (PII) yn gyflawn ac yn gywir, a gall yr Ardal ddangos y gwneir ceisiadau PII yn briodol.

- Mae'r Ardal wedi ysgogi deialog parhaus gyda Llys y Goron mewn perthynas â'r protocol datgelu. Fe'i cynhelir yng nghyfarfodydd defnyddwyr y llys lle mae'r farnwriaeth wedi awgrymu bod y CPS yn cydymffurfio â'i dyletswyddau o ran y protocol.

- Cedwir deunydd nas defnyddiwyd ar wahân mewn waled las ar ffeiliau Llys y Goron, ynghyd ag amserlenni a gohebiaeth berthnasol. Fodd bynnag, ar ffeiliau'r llysoedd ynadon, cedwir yr amserlenni a'r deunydd nas defnyddiwyd yng nghefn ffeil y treial, ac fe'u hatodir at ei gilydd gan dag trysorlys, fel na ellir adnabod deunydd nas defnyddiwyd yn hawdd bob amser a bydd angen tynnu ffeil gyfan y treial oddi wrth y tag yn gyntaf cyn ychwanegu unrhyw beth, ac yna ei ailosod. Felly, nid yw'r Ardal yn cydymffurfio'n llawn â'r Llawlyfr Datgelu yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae ganddi systemau effeithiol ar gyfer ymdrin â deunydd sensitif yn ddiogel.

- Mae'r Hyrwyddwr Datgelu yn uwch gyfreithiwr sydd â phrofiad o ymdrin â gwaith achos sensitif a chymhleth. Mae'n adnabyddus iawn i'r holl staff sy'n gysylltiedig â pharatoi achosion a gall roi cyngor a chymorth ar fyr rybudd. Cynhaliodd hyfforddiant ar y Llawlyfr Datgelu ym mis Tachwedd 2006 a chynhaliodd hyfforddiant gloywi ar ymdrin â deunydd sensitif yn fwy diweddar. Er ei fod yn cael copïau o adroddiadau canlyniadau aflwyddiannus sy'n cynnwys cyfeiriad at faterion datgelu, nid yw'n cynnal ei wiriadau realiti ffurfiol ei hun ar systemau neu ffeiliau.

- Dangosodd ein gwiriadau realiti, lle yr oedd yn berthnasol, fod amserlenni deunydd nas defnyddiwyd yn cael eu hanfon yn ôl at swyddog datgelu'r heddlu i'w cwblhau'n llawnach. Mae'r Ardal yn ceisio darparu canllawiau i swyddogion datgelu ar y cam cyn cyhuddo ar sail achos, er bod adroddiadau canlyniadau anffafriol yn dangos nad ymdrinnir â materion datgelu yn llawn bob amser yn yr orsaf gyhuddo.

- Ers yr OPA diwethaf, mae'r Ardal wedi dechrau cynnwys ffurflenni cyfarwyddyd herio yn ffeiliau llysoedd ynadon. Maent yn cynnwys rhestr wirio ddefnyddiol o ddeunydd nas defnyddiwyd a thaflen cofnodion datgelu (DRS). Fodd bynnag, dangosodd ein gwiriadau realiti fod y DRS wedi'i chwblhau'n llawn mewn tri o bum achos. Yn un o bum achos Llys y Goron roedd y DRS yn wag ac yn y llall roedd wedi'i chwblhau'n rhannol. Cyflwynwyd cynllun CQU gwell ers yr OPA diwethaf ac mae hwn yn dueddol o nodi rhai diffygion. Efallai y bydd yn briodol gwneud gwaith pellach er mwyn gwella perfformiad a gallai hyn gynnwys cynnal hyfforddiant pellach gyda'r heddlu.

| 7 TERFYNAU AMSER CADWRAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

**7A Mae systemau terfynau amser cadwraeth yr Ardal yn cydymffurfio â chanllawiau presennol y CPS a chyfraith achosion**

- Mae system terfyn amser cadwraeth (CTL) ysgrifenedig ffurfiol wedi'i chynnwys o fewn tair dogfen. Mae safon yr Ardal yn darparu'r fframwaith ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2007 gan yr hyrwyddwr. Mabwysiadwyd atodiad yn ymwneud â gwiriadau CMS ym mis Mai 2007. Mae safon yr Ardal ar arnodi ffeiliau yn cynnwys cyfeiriad at arnodi dyddiadau perthnasol. Mae'r system gyffredinol yn cydymffurfio'n helaeth â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf er bod rhai bylchau; ac mae'n cynnwys rhai elfennau o arfer da.

- Mae'r uwch dîm rheoli yn adolygu unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system cyn eu mabwysiadu. Yn dilyn hynny rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'r newidiadau fel bod staff yn gwbl ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf. Mae Penaethiaid Unedau yn paratoi adroddiad ysgrifenedig manwl ar berfformiad CTL i'w drafod gyda'r CCP a'r ABM yn y cyfarfodydd perfformiad misol.

- Dengys ein gwiriadau realiti fod y system CTL wedi'i chymhwyso'n gywir ar y cyfan. Mae rheolwyr uned yn cynnal gwiriadau o restr dasgau'r CMS yn ôl y gofyn, yn ogystal â'r gwiriadau dyddiadur papur a ffeiliau. Caiff dyddiadau dod i ben ac adolygu eu cyfrifo a'u harnodi'n gywir ar y cyfan. Nododd ein harchwiliad o ffeiliau yn y gwiriadau realiti un achos lle roedd y dyddiad dod i ben wedi'i gyfrifo'n anghywir i gychwyn, fodd bynnag, roedd gwiriadau gan reolwyr wedi nodi'r gwall hwn ac wedi'i gywiro mewn da bryd.

- Mae'r Hyrwyddwr CTL yn Bennaeth Uned ac felly gall fod yn gyfrifol ar y lefel strategol yn ogystal â'r lefel weithredol. Mae'n gweld yr adroddiadau uned misol ac yn nodi unrhyw dueddiadau. Mae'n cynnal y system CTL ac yn ei diweddaru lle y bo angen i sicrhau cydymffurfiaeth, ac mae wedi gwneud hyn yn effeithiol ers yr OPA diwethaf.

- Fodd bynnag, bu un methiant CTL ers yr OPA diwethaf a ddigwyddodd ym mis Ebrill 2006 a ddeilliodd o arnodiad ffeil aneglur. Cynhaliwyd ymchwiliad llawn a nododd y CCP wersi i'w dysgu gyda'r hyrwyddwr. Paratowyd rhestr o gamau ac mae'n ofynnol i Benaethiaid Unedau fonitro cydymffurfiaeth â hi. Yn dilyn hynny, ymgorfforwyd y rhestr yn safon newydd yr Ardal er mwyn sicrhau na cheid methiant arall.

- Ceir cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r llysoedd ar gyfer cytuno ar ddyddiadau dod i ben, a chaiff y cytundeb hwn ei gymhwyso'n gyffredinol. Fodd bynnag, dangosodd ein gwiriadau realiti, mewn tri o chwe achos perthnasol, na chafodd y ffeil CPS ei harnodi i gadarnhau bod y dyddiad dod i ben wedi'i gytuno yn y llys agored.

| 8 Y GWASANAETH I DDIODDEFWYR A THYSTION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

## 8A Mae'r Ardal yn sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr a thystion eu hystyried a'u diwallu'n amserol ac yn effeithiol

- Mae'r Ardal yn monitro cydymffurfiaeth â'r fenter Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) sy'n gofyn am anfon llythyr pan gaiff y cyhuddiad ei ollwng neu ei newid yn sylweddol. Yn 2006-07, cyflawnodd yr Ardal 75% o'i tharged dirprwy ar gyfer nifer y llythyrau y dylai fod yn eu hanfon. Yn ystod yr un cyfnod, anfonwyd 78.4% o'r llythyrau o fewn pum diwrnod. Roedd hyn yn well na'r perfformiad cenedlaethol sef 73%, er i archwiliad DCV HMCPSI diweddar ddangos mai dim ond 50% oedd y gyfradd cydymffurfiaeth. Mae dau aelod o staff yn y Ganolfan Gwybodaeth i Ddioddefwyr yn gyfrifol am ddrafftio llythyrau dioddefwyr, a gaiff eu gwirio a'u llofnodi gan gyfreithiwr yn dilyn hynny. Ar y cychwyn, gwnaeth hyn helpu i wella perfformiad, fodd bynnag, cafwyd gostyngiad yn nhrydydd chwarter 2006-07 am fod un o awduron y llythyrau yn absennol am gyfnod estynedig. Rhoddwyd trefniadau wrth gefn priodol ar waith bellach pe digwyddai'r sefyllfa hon godi eto.

- Mae diffyg system amlygu briodol yn y lle cyntaf yn un o'r prif resymau pam na chaiff dioddefwyr y wybodaeth ddiweddaraf bob amser. Nododd ein harchwiliad o'r DCV mai dim ond 14 o 30 o achosion (46.7%) a gafodd eu hamlygu ar y CMS fel achosion yr oedd dioddefwr wedi'i nodi ar eu cyfer. Roedd hyn yn broblem hefyd o ran y gwiriadau realiti a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad hwn, er bod perfformiad yn well, lle roedd 72% o'r achosion (13 o 18) wedi'u hamlygu ar y CMS.

- Mae erlynwyr yn y rhan fwyaf o achosion yn ystyried anghenion dioddefwyr a thystion mewn achosion cyn cyhuddo ac achosion eraill. Fodd bynnag, nid oedd y ceisiadau ar gyfer mesurau arbennig yn amserol bob amser. Mae'r Ardal yn tanlinellu ei hymrwymiad i ofynion dioddefwyr a thystion drwy gyfarfodydd tîm, ac mae'n ymateb yn gadarnhaol i'r archwiliad o'r DCV drwy adolygu ei phrosesau.

- Nid yw'r dulliau cyfathrebu rhwng yr Uned Gofal Tystion (WCU) a'r unedau CPS bob amser yn amserol. Mae angen y ffeil CPS ar y WCU i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr a thystion ar ddatblygiad achosion. Er y gallai gael y ffeil o fewn 24 awr, anaml y caiff dioddefwr neu dyst y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd achos o fewn 24 awr. Mae'r WCU yn colli achosion nad ydynt wedi'u nodi ar y system rheoli tystion (WMS) o ganlyniad i'r mater amlygu achosion y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Mae'r uned yn cael rhywfaint o wybodaeth gan lysoedd sy'n ei galluogi i gysylltu â rhai dioddefwyr a thystion ar unwaith dros y ffôn. Yn ogystal, mae'r Ardal yn cadarnhau, ar gyfer achosion trais yn y cartref, mai'r cyfarwyddyd yw y bydd y cyfreithiwr yn mynd â'r ffeil yn gorfforol i'r staff gofal tystion, a fydd yn ffonio'r dioddefwr a'r tyst ar unwaith os bydd yn amlwg na chaiff llythyr llawn ei anfon o fewn 24 awr.

- Mae rhybuddion i dystion ac achosion o ganslo yn amserol fel arfer ac yn y rhan fwyaf o achosion anfonir llythyrau mewn perthynas â threfnu presenoldeb yn y llys. Caiff WMS ei fonitro yn wythnosol gan y Rheolwr Gofal Tystion er mwyn sicrhau na chaiff rhybuddion ac achosion o ganslo eu colli. Hysbysir swyddogion yr heddlu sy'n dystion drwy'r system e-bost.

- Mae'r Ardal yn cynnig y cyfle i bob dioddefwr a thyst ddewis Cymraeg fel ei iaith gyntaf. Lle y cymerir y dewis hwn, fe'i gweithredir ar hyd yr achos, sy'n golygu y bydd pob gohebiaeth, datganiad ac ati yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg.

- Mae proses o fonitro eiriolwyr ar waith. Mae Penaethiaid Unedau yn sicrhau bod erlynwyr yn cydymffurfio ag Addewid yr Erlynwyr o ran ymgysylltu â dioddefwyr a thystion pan fyddant yn y llys a sicrhau y cânt eu trin yn gwrtais. Yn ogystal, mae Penaethiaid Unedau yn edrych ar arnodiadau ar y sampl ar hap o ffeiliau er mwyn cael nodiadau i'w trafod gyda dioddefwyr a thystion yn ogystal â nodiadau gweithiwr achos.

**8B Mae'r Ardal, ar y cyd â'i phartneriaid cyfiawnder troseddol, wedi cyflwyno'r cynllun Dim Tyst, Dim Cyfiawnder (NWNJ) yn effeithiol**

- Rhennir y WCU rhwng y ddau safle CPS ym Mae Colwyn a Wrecsam ac mae'n cynnwys yr heddlu a staff y CPS, ynghyd â rheolwr y CPS. Nid yw'r uned yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod i Ddioddefwyr a gofynion sylfaenol y fenter Dim Tyst Dim Cyfiawnder. Nid yw'r rhan fwyaf o fesurau sylfaenol ac eilaidd NWNJ yn cael eu cyflawni ychwaith. Mae'r Ardal wedi cael rhai anawsterau o ran staffio ac ym mis Ionawr 2007 nododd Heddlu Gogledd Cymru y byddai'n rhaid iddynt leihau nifer y staff yn yr uned o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol ar eu cyllideb. I ddechrau, roedd yr heddlu am leihau eu hymrwymiad o 11 aelod o staff i bedwar, ond ar ôl llawer o drafod cytunwyd y byddent yn parhau i ariannu saith swydd. O ganlyniad i'r lleihad yn nifer y staff mae'r CPS a'r heddlu wedi cytuno ar y safonau y byddant yn anelu at eu cyrraedd o fewn y cyfyngiadau adnoddau, er eu bod yn derbyn na fydd hyn yn cyrraedd y gofynion sylfaenol.

- Caiff asesiad chwarterol o gydymffurfiaeth y WCU a'r CPS â'r Cod i Ddioddefwyr ei lunio gan y Rheolwr Gofal Tystion. Mae'r Ardal yn defnyddio WMS i asesu ei pherfformiad yn erbyn gofynion sylfaenol y cynllun NWNJ ac i edrych ar ei chydymffurfiaeth â'r Cod i Ddioddefwyr. Defnyddir yr asesiad yn fewnol mewn cyfarfodydd Ardal a chydag asiantaethau partner i asesu perfformiad cyffredinol.

- Mae nifer y treialon chwâl o ganlyniad i faterion yn ymwneud â thystion yn y llysoedd ynadon ac o ganlyniad i bleon euog yn Llys y Goron ar gyfer 2006-07 yn waeth na'r lefel sylfaenol. Mae nifer y treialon aneffeithiol o ganlyniad i faterion yn ymwneud â thystion yn y llysoedd ynadon yn well na lefel sylfaenol y cynllun NWNJ a pherfformiad cenedlaethol ac mae'n gwella.

- Gwneir dadansoddiad ar y cyd o ddata perfformiad fel arfer, yn enwedig gyda'r heddlu. Fodd bynnag, mae'r Ardal wedi mynegi pryder pan fydd materion yn codi mewn perthynas ag adnoddau, gwneir penderfyniadau yn aml heb fanteisio ar drafodaeth ar y cyd a heb ystyried unrhyw ymrwymiad ar y cyd y cytunwyd arno'n flaenorol. Cred y dylai fod cyllideb benodedig ar gyfer y WCU a fyddai'n dileu'r broblem hon.

- Lle y caiff materion a gwersi a ddysgwyd eu nodi drwy ddadansoddiad ar y cyd caiff staff eu hysbysu o'r rhain naill ai'n unigol, lle y bo'n briodol, yn y gwiriadau sicrhau ansawdd misol neu ar y cyd drwy gofnodion dysgu'r Ardal, y cylchlythyr wythnosol neu gyfarfodydd tîm.

| 9 CYFLWYNO NEWID | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |

**9A Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o ddiben a ategir gan gynlluniau perthnasol**

- Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o'r hyn y mae am ei gyflawni a sut i'w gyflawni. Datblygwyd Cynllun Busnes yr Ardal (ABP) ar gyfer 2007-08, ynghyd â chynllun 2006-07, drwy ymgynghori â staff mewn gweithdy wedi'i hwyluso. Mae'r cynllun yn cwmpasu 15 o flaenoriaethau allweddol cenedlaethol y CPS a thargedau'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus ac mae cerrig milltir perthnasol sy'n gysylltiedig â phrosiectau, hyfforddiant a pherfformiad. Rhoddwyd cyfrifoldeb strategol i Benaethiaid Unedau am amcanion. Pennwyd amserlenni ar gyfer gweithredu, ond caiff y rhain eu dangos mewn fformat chwarterol ac nid ydynt yn dangos p'un a yw dyddiadau chwarter yn ymwneud â gweithredu neu gwblhau.

- Mae'r Ardal yn adolygu ei sefyllfa yn erbyn y cynllun a'r cofnodion risg yn ffurfiol bob chwarter yn yr AMT, fodd bynnag, os bwriedir cymryd unrhyw gamau, gellir ystyried y rhain yn unrhyw un o gyfarfodydd misol yr AMT. Defnyddir templed i gofnodi pa gamau a gymerwyd cyn y cyfarfod; caiff hwn ei ddefnyddio wedyn i lywio trafodaeth a chaiff ei ddiweddaru gydag unrhyw gerrig milltir a gwblhawyd, manteision a wireddwyd, a rhesymau dros lithriant lle y bo'n briodol.

- Mae amcanion o'r ABP yn bwydo cynlluniau'r uned a chânt eu defnyddio i bennu amcanion unigol ar gyfer cynlluniau swyddi staff gan ddefnyddio system Invest (arfarnu staff) y CPS. Caiff amcanion o gynlluniau uned eu hadolygu fel rhan o gyfarfod perfformiad yr uned bob mis ac amcanion unigol fel rhan o'r adolygiad arfarnu staff. Caiff cynnydd ar amcanion ei gofnodi fel rhan o'r broses fonitro.

- Er bod rhywfaint o dystiolaeth o gynllunio ar y cyd a gyfarwyddir gan yr LCJB, mae rhai meysydd o newid nad ydynt wedi cynnwys yr ymgynghoriad amlasiantaethol a oedd yn ofynnol. Mae angen i'r Ardal ddelio'n rhagweithiol ar y cyfle cynharaf ar lefel strategol â phartneriaid, fel y gellir ystyried a mabwysiadu opsiynau perthnasol. Un mater o'r fath oedd staffio yn yr Uned Gofal Tystion. Er bod y prosiect cychwynnol wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol yn yr hirdymor, bu'n rhaid i un asiantaeth leihau ei hymrwymiad adnoddau i'r uned. Er y cafwyd rhywfaint o drafod ers hynny, nid yw'r mater hwn wedi'i ddatrys yn foddhaol o hyd, sy'n golygu bod prinder staff yn yr uned ac na all ddarparu'r gwasanaeth llawn i ddioddefwyr a thystion.

- Mae gan bob rheolwr rôl arweiniol neu mae'n gynrychiolydd y CPS ar naill ai is-grŵp yr LCJB neu grŵp rhyngasiantaethol arall. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r swyddog arweiniol ar yr is-grŵp rheoli ymchwilio a threial a'r grwpiau PTPM. Er y caiff rheolwr prosiect yr LCJB ei benodi i'r rhan fwyaf o brosiectau, mae nifer o uwch reolwyr y CPS wedi arwain rhai mentrau trawsasiantaethol, er enghraifft, CJSSS, y Llys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref a rhyngwyneb system TG yr heddlu â phrosiectau CMS.

### 9B Mae strategaeth rheoli newid gydlynol a chydgysylltiedig ar gael

- Ym mis Ebrill 2006, ailstrwythurwyd yr Ardal yn sylweddol ar ôl tynnu'r heddlu o safleoedd a gydleolwyd. Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad manwl a oedd yn cynnwys dosbarthu papur trafod i bob aelod o staff i gael adborth. Yn dilyn hynny caiff cynigion eu hadolygu'n ffurfiol gydag aelodau AMT a Chyngor Whitley i weld pa opsiwn y dylid ei ddatblygu. Symudodd y CPS i dair uned gyfunol, a oedd yn cyd-ffinio ag Unedau Gorchymyn Sylfaenol yr heddlu a rhanbarthau'r llys. Nid yw'r symudiad wedi cael unrhyw effaith andwyol ar ganlyniadau'r Ardal ac mae morâl staff wedi parhau'n dda. Mae arolwg staff 2006 yn dangos bod staff, yn gyffredinol, o'r farn y caiff newid ei reoli'n dda yn yr Ardal a chred 77% fod ganddynt sianeli digonol i gyfrannu eu safbwyntiau ar newid.

- Bwriadwyd rhoi CJSSS ar waith yn yr ardal Ganolog yn ystod ail chwarter 2007-08, fodd bynnag, mae hyn bellach wedi'i ohirio tan fis Medi 2007, er y bwriedir i'r broses o'i gyflwyno'n llawn orffen yn gynharach na'r terfyn amser, sef mis Rhagfyr 2007. Ar ôl cyflwyno porthgeidwaid yr heddlu yn y tri safle, mae'r CPS yn aros i sicrhau y caiff y rôl ei hymgorffori cyn dechrau ar y gwaith o gyflwyno CJSSS. Roedd rhyngwyneb cyfrifiadur yr heddlu â'r CMS hefyd yn wynebu tair wythnos o oedi, gan fod pob asiantaeth o'r farn bod yr amserlenni a nodwyd gan Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol y Llywodraeth yn rhy uchelgeisiol ac nad oeddent yn gyraeddadwy. Mae angen i'r Ardal ystyried y ffaith y bydd unrhyw oedi mewn prosiect yn golygu y caiff unrhyw fanteision a ragwelir eu gohirio hefyd ac mewn rhai achosion (yn cynnwys NWNJ), nad ydynt yn cael eu gwireddu o hyd.

- Mae prosiectau eraill wedi'u gweithredu'n llwyddiannus, fel y system rhybuddio amodol, y Llys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref a mentrau lleol eraill fel y cyfleuster i ddiweddaru MG3s yn electronig ar y CMS yn y canolfannau cyhuddo.

- Mae strwythur rheoli newid ar waith, a chaiff y rhan fwyaf o brosiectau eu rheoli drwy'r LCJB. Penodir Uwch Swyddog Adrodd (SRO) i bob prosiect sy'n gyfrifol am gyflawni. Caiff pob un o Benaethiaid Unedau CPS hyfforddiant ar reoli prosiectau ac maent yn cyflawni rôl yr SRO ar adegau. Caiff pob prosiect ei gynnwys yn y ABP a nodir gofynion hyfforddi. Caiff yr holl anghenion hyfforddi eu cynnwys hefyd yn y cynlluniau hyfforddi a datblygu.

- Fel rhan o'i phroses adolygu newid mae'r Ardal yn cofnodi gwersi a ddysgwyd yn ystod y prosiectau. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod y gwersi a ddysgwyd wedi'u rhoi ar waith.

- Ceir cofnod risgiau sy'n nodi risgiau prosiectau a risgiau 'busnes fel arfer'. Caiff pob risg ei hadolygu a'i diweddaru'n ffurfiol pob chwarter yng nghyfarfodydd yr AMT ac, ar adegau, yn fisol lle y tybir ei fod yn angenrheidiol.

### 9C Mae'r Ardal yn sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau i ddiwallu'r angen busnes

- Mae'r Ardal wedi cynllunio ei hanghenion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn a gaiff eu cofnodi yn y cofnod dysgu a datblygu. Mae hon yn ddogfen gynhwysfawr sy'n gysylltiedig ag amcanion ABP a phrosiectau parhaus; a chaiff ei hadolygu'n fisol fel rhan o'r broses adolygu.

- Mae'r cofnod hefyd yn cynnwys hyfforddiant sefydlu ac amrywiaeth perthnasol yn ogystal â rhywfaint o hyfforddiant rheoli a datblygu. Mae'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr ar gael i reolwyr yng Ngogledd Cymru a Glannau Mersi, fel y gall staff fanteisio ar eu safle agosaf. Rhoddir ystyriaeth fesul achos hefyd i roi cymorth i staff sy'n dymuno cymryd rhan mewn hyfforddiant allanol fel mynd i brifysgol.

- Sicrheir bod pawb yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar hyfforddiant drwy drefnu digwyddiadau i ystyried patrymau gwaith. Rhoddir hyfforddiant lleol yn y ddau safle ar ddiwrnodau gwahanol i sicrhau y cynhwysir pob aelod o staff, a rhoddir hyfforddiant allanol mewn lleoliadau sy'n ganolog i'r ddau safle. Rhoddwyd rhywfaint o hyfforddiant drwy gyfrwng modiwlau dydd rhannol sydd wedi caniatáu i'r staff sy'n gweithio oriau llai gymryd rhan. Yn ogystal, lle mae staff wedi colli hyfforddiant gorfodol, gwnaed trefniadau iddynt ymgymryd ag ef mewn Ardal arall.

- Caiff effeithiolrwydd a gwerth hyfforddiant ei asesu drwy ddefnyddio systemau monitro sefydledig i edrych am welliannau, er enghraifft gan ddefnyddio CQA i asesu a yw hyfforddiant penodol wedi'i dargedu wedi arwain at welliant personol. Mae cofnodion cynhwysfawr ar gyfer pob aelod o staff sy'n amlinellu pa hyfforddiant a wnaed ganddynt, y gall rheolwyr gyfeirio atynt wrth wirio ansawdd canlyniadau, fodd bynnag nid oes tystiolaeth o system ffurfiol ar gyfer gwerthuso hyfforddiant.

| 10 RHEOLI ADNODDAU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

### 10A Mae'r Ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian, ac mae'n gweithredu o fewn ei chyllideb

- Mae Gogledd Cymru wedi gweithredu o fewn ei chyllideb costau rhedeg heb eu neilltuo am y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf sef 99.7% yn 2005-06, a 99.9% yn 2006-07. Mae ei rheolaethau ariannol yn dda ac mae system gyfrifyddu fanwl ar waith i lywio'r gwaith cynllunio mewn cyfarfodydd AMT, ac er mwyn monitro gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

- Rhoddwyd ystyriaeth i ddatganoli cyllidebau i lefel Penaethiaid Unedau, ond mae arbedion maint yn gwneud hyn yn anodd. Er gwaethaf hyn, mae'r Ardal wedi cynnal nifer o sesiynau cyllideb i godi ymwybyddiaeth staff o'r modd y darperir adnoddau ar ei chyfer a'r rôl y maent yn ei chwarae i sicrhau y caiff y gyllideb ei rheoli'n briodol a bod systemau a phrosesau ar gyfer rhagweld a chofnodi gwariant yn amserol ac yn gywir.

- Mae'r Ardal yn mynd ati i sicrhau ei bod yn cyflawni gwerth am arian. Lleihawyd costau teithio drwy sicrhau bod cyfleusterau fel ystafelloedd hyfforddi ar gael yn y ddau safle. Mae gweithdrefnau galw allan ar ddydd Sadwrn wedi'u lleihau lle y bo'n bosibl ac mae trefniadau ar waith ar gyfer rhannu gweithwyr achos â CPS Dyfed Powys, i leihau costau yn y ddwy Ardal.

- Gorwariwyd yn sylweddol ar gostau erlyn ar gyfer 2006-07, sef 9.5%, er bod hyn yn welliant ar yr OPA yn 2005, pan orwariodd yr Ardal 21.3%. Defnyddiwyd dull adrodd ar eithriadau yn flaenorol ar gyfer taliadau'r cynllun ffioedd graddedig (GFS), nad oedd yn gallu rhoi tystiolaeth ategol o wariant pan gysylltwyd â'r Pencadlys am arian ychwanegol yn y hirdymor. Cred yr Ardal fod ei chyllideb erlyn yn annigonol ac mae wedi cyflwyno system olrhain a ddylai arwain at ddull mwy cywir o gyfateb ei gwariant yn erbyn Taflenni Gwybodaeth am Ffioedd a rhoi gwell tystiolaeth o'i gofynion o ran adnoddau.

- Mae'r perfformiad o ran talu ffioedd o dan GFS yn well na'r perfformiad cenedlaethol, a thalwyd 60% o ffioedd o fewn mis a 91% o fewn pedwar mis ar gyfer 2006-07, yn erbyn y data cenedlaethol o 50% ac 88% yn y drefn honno.

- Yn ystod 2006-07 derbyniodd yr Ardal £7,500 o arian ychwanegol a ddefnyddiwyd i gynyddu nifer yr aelodau o staff yn yr Uned Gofal Tystion (gweler Agwedd 8), a £10,000 i benodi dau aelod o staff ychwanegol i sicrhau ansawdd gwybodaeth a gafwyd gan y rhyngwyneb rhwng system yr heddlu a'r prosiect CMS, a fydd yn arwain at welliannau mewn perfformiad a dylai leihau'r broses o gofnodi gwybodaeth ddwywaith. Darparwyd £5,750 ychwanegol i dalu am gostau asiantau i gwmpasu'r hyfforddiant cyfreithwyr ar gyfer y prosiect rhybuddion amodol.

## 10B Mae'r Ardal wedi sicrhau y caiff pob aelod o staff ei leoli'n effeithlon

- Cytunodd y CPS a Heddlu Gogledd Cymru i ailstrwythuro ar adeg yr OPA diwethaf, a oedd yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth gydleoli i leoli ar wahân. Mae'r Ardal bellach wedi symud i ddwy ardal ddaearyddol gyda thair uned gyfunol. Ymddengys fod hyn yn addas i'r busnes ac nid yw wedi cael unrhyw effaith andwyol ar ganlyniadau.

- Trafodir y broses o gynllunio strwythurau staff yn rheolaidd yn yr AMT, er nad yw'n eitem sefydlog ar yr agenda. Defnyddir y model costau sy'n seiliedig ar weithgarwch gan yr AMT fel man cychwyn, ynghyd ag ymrwymiad pob uned i gyhuddo (data PTPM) a gwybodaeth arall am lwyth gwaith i sefydlu ei broffil staffio gorau posibl. Gall rheolwyr gyflwyno eu hachos am hawliad am arian, a gaiff ei drafod wedi hynny a dyrennir arian yn briodol.

- Mae gan yr Ardal 88.3% o ddarpariaeth fewnol yn y llysoedd ynadon, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.4%. Mae'r defnydd o asiantau, sef 11.7% yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol o 19.6%. Caiff cyfreithwyr eu rhestru ar gyfer wyth sesiwn hanner diwrnod yn y llys neu ar ddyletswydd cyhuddo, a dyrennir un diwrnod llawn i wneud gwaith swyddfa. Mewn gwirionedd, mae cyfreithwyr yn dueddol o gael dau ddiwrnod y gallant eu defnyddio ar gyfer gwaith swyddfa oherwydd bod sesiynau yn y llys yn aml yn gorffen yn gynharach nag a gynlluniwyd.

- Roedd y defnydd o weithwyr achos dynodedig ar gyfer 2006-07, sef 24.5%, yn y chwartel uchaf o ran perfformiad yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol, sef 14.7%. Mae'r Ardal yn disgwyl i'r broses o leoli DCWs gyfateb i wyth sesiwn hanner diwrnod yn y llys bob wythnos. Cwmpasodd y pum DCS 1,365 o sesiynau yn 2006-07.

- Mae deg Eiriolwr Llys Uwch er mai dim ond saith sydd wedi'u lleoli'n llawn yn y rôl hon. Mae gan yr Ardal gynlluniau fel rhan o'i strategaeth eiriolaeth i hyfforddi HCA arall yn 2007-08, er ei bod yn ymddangos na fyddai digon o waith yn y llysoedd uwch i sicrhau proses leoli effeithlon. Ymddangosodd HCAs mewn 23 o dreialon yn y chwe mis yn arwain at fis Ebrill 2007 a chynhaliwyd 178 o sesiynau llys yn 2006-07. Rhagorwyd ar darged HCA yr Ardal ar gyfer 2006-07, a chafwyd arbedion cyffredinol o £63,402 (175% o'r targed) a £356 o arbedion fesul sesiwn yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol o £339.

- Roedd cyfartaledd o 7.2 diwrnod o absenoldeb oherwydd salwch y person yn 2006-07, 48.8% o ganlyniad i salwch hirdymor, ac mae'r ddau ffigur yn well na'r perfformiad cenedlaethol a'r targed. Cynhaliwyd gweithdai absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer rheolwyr. Cynhelir cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gwneir rhywfaint o waith nodi tueddiadau a dadansoddi sylfaenol i geisio nodi'r rhesymau dros absenoldeb. Mae'r gallu i reoli salwch yn gwella.

- Er mai anghenion busnes yw'r flaenoriaeth, mae'r Ardal wedi cytuno ar rywfaint o weithio hyblyg a gweithio yn ystod tymor yr ysgol yn unig ac mae ganddi nifer o staff rhan amser; mae bron chwarter o'i staff yn gweithio oriau gostyngol. Mae polisïau ar waith ar gyfer caniatáu gwyliau yn ystod cyfnod gwyliau ysgol i sicrhau bod digon o staff ar gael yn y llysoedd a'r canolfannau cyhuddo.

| 11 RHEOLI PERFFORMIAD ER MWYN GWELLA | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |

### 11A Mae rheolwyr yn atebol am berfformiad ac mae gwybodaeth am berfformiad yn gywir ac yn amserol

- Mewn nifer o ffyrdd mae'r Ardal wedi cydnabod pwysigrwydd cyfundrefn rheoli perfformiad gadarn a gall ddangos bod rheolwyr yn cael eu dwyn i gyfrif yn llawn am berfformiad, a drafodir yn y cyfarfodydd misol. Cytunir ar gamau priodol gyda dyddiadau ymateb ac fe'u dyrennir i Benaethiaid Unedau. Caiff camau eu cofnodi fel cofnod parhaus a'u diweddaru bob mis. Nid oes cofnod o drafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod i gyfiawnhau'r camau ac nid yw'r cofnod parhaus yn cyfuno camau sy'n ymwneud â thema debyg nac yn nodi materion sy'n codi dro ar ôl tro. Mae'r diffyg eglurder hwn o ran y cofnod o'r camau yn creu'r risg o ddyblygu ymdrech.

- Nid oes swyddog perfformiad mwyach o ganlyniad i gyfyngiadau'r gyllideb sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r Cynorthwy-ydd Personol i'r CCP a'r ABM yn rhoi ciplun misol defnyddiol o berfformiad i bob aelod o'r AMT. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am unedau unigol, ynghyd â pherfformiad misol a blynyddol yn erbyn Ardaloedd CPS eraill drwy ddefnyddio system 'goleuadau traffig'. Mae'r wybodaeth yn glir ac yn gynhwysfawr ond nid yw'n cynnwys unrhyw waith dadansoddi neu nodi tueddiadau manwl, yn enwedig yn erbyn perfformiad cenedlaethol.

- Caiff rheolwyr eu dwyn i gyfrif am berfformiad eu huned drwy'r adolygiadau chwarterol ac yn unigol gyda'r CCP a'r ABM ar gyfer eu hunedau. Mae'r Penaethiaid Unedau yn paratoi manylion am berfformiad eu huned, yn cynnwys eitemau megis adroddiadau ar achosion anffafriol, sydd â'r fantais o wneud rheolwyr yn ymwybodol iawn o'r modd y maent yn perfformio. Mae rheolwyr yn sicrhau ansawdd data ac yn gwneud defnydd da o wybodaeth PTPM i wirio'r defnydd a wneir o'r cynllun cyhuddo, ymgynghoriadau a chyfraddau NFA, a gaiff eu trafod wedi hynny mewn cyfarfodydd PTPM â'r heddlu. Mae rheolwyr hefyd yn gwneud gwaith samplu ar hap o ffeiliau, yn cynnwys CTL ac NFA, ac yn rhoi gwybod am berfformiad o ran meysydd y mae angen eu gwella a pherfformiad da mewn cyfarfodydd tîm ac yn unigol drwy arfarniadau. Mae rheolwyr unedau yn gyfrifol am berfformiad ac maent yn ceisio ei wella yn barhaus, gan rannu arferion da rhwng yr unedau. Ceir tystiolaeth dda hefyd bod cyfreithwyr yn cael amcanion priodol fel rhan o'u hadolygiad o berfformiad.

- Mae Penaethiaid Unedau yn cadarnhau bod proses samplu ar hap o'r CMS yn cael ei chynnal. Fodd bynnag, dengys gwiriadau realiti fod yr adolygiadau o'r CMS yn anghyson ar draws yr Ardal. Yn yr Uned Orllewinol, ceir proses glir o sicrhau ansawdd adroddiadau achos parhaus a rhestrau o dasgau, fodd bynnag nid yw'r un system yn amlwg yn yr Uned Ddwyreiniol a'r Uned Ganolog, lle y mae nifer o faterion sy'n weddill ar y CMS y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae angen adolygu prosesau monitro'r CMS a mabwysiadu arferion gorau ar draws yr Ardal.

**11B Mae'r Ardal yn ymrwymedig i reoli perfformiad ar y cyd â phartneriaid CJS**

- Mae rheolwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaethol lle y caiff perfformiad ei adolygu, yn enwedig PTPM a chyfarfodydd grŵp defnyddwyr y llys. Mae gwybodaeth am berfformiad ar gael iddynt gan y CPS, yr heddlu a'r llysoedd. Mae camau gweithredu cadarnhaol wedi deillio o'r adolygiad hwn o berfformiad yn dilyn penodi porthgeidwaid yr heddlu ym mhob uned mewn ymgais i fynd i'r afael â'r gyfradd NFA uchel.

- Mae Rheolwr Perfformiad yr LCJB yn rhoi cyflwyniad ar faterion ar y cyd, a gaiff ei gyflwyno i'r Bwrdd wedi hynny. Ceir trafodaeth ar faterion perfformiad ar y cyd, ond mae hyn yn gyfyngedig. Er bod y drafodaeth yn gynhyrchiol mewn rhai pynciau (er enghraifft cyfraddau NFA), mewn pynciau eraill fel NWNJ, derbynnir y perfformiad gwael fwy neu lai heb unrhyw ymgais amlwg i wneud gwelliannau. Ceir arwyddion bod y CPS wedi gorfod bod yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol wrth wneud penderfyniadau ar y cyd ar lefel strategol, er y gall hawlio'n ddilys iddo gael rhai canlyniadau da.

**11C Mae'r systemau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith achos a'r broses o'i erlyn yn y llys yn gadarn ac yn seiliedig ar waith monitro a dadansoddi dibynadwy a chywir**

- Mae'r Ardal yn cynnal gweithrediad y system CQA ac mae Penaethiaid Unedau yn defnyddio hyn ynghyd â phroses fisol ragnodedig o samplu pob math o ffeiliau a ffurflenni MG3 ar hap er mwyn monitro cyfreithwyr. Mae'n rhaid i Benaethiaid Unedau, fel rhan o'u cyfarfodydd perfformiad, gyflwyno adroddiad ar y gwaith o ddadansoddi CQA ar gyfer eu hunedau. Caiff y gwersi a ddysgwyd eu rhannu ag unedau eraill a'u cyhoeddi drwy'r cylchlythyr wythnosol. Cynhyrchir cofnodion o wallau cyffredin hefyd, a ddosberthir i bob aelod o staff. Ceir tystiolaeth dda o adborth a gofnodir ar ffurflenni CQA ynglŷn â pherfformiad da a meysydd i'w gwella, a drafodir wedi hynny â chyfreithwyr unigol. Mae gwiriadau realiti yn cadarnhau bod y broses o gofnodi CQA yn gywir.

- Caiff perfformiad eiriolwyr yn y llys ei fonitro'n systematig. Caiff un cyfreithiwr ei fonitro bob mis gan bob Pennaeth Uned. Cwblheir taflen monitro eiriolwyr yn rhoi adborth adeiladol ar berfformiad. Er bod y sylwadau gwirioneddol yn adeiladol, cafwyd bod yr holl gyfreithwyr wedi'u marcio ar lefel "C" (yn bodloni'r gofynion yn llawn). Dylai rhai asesiadau fod wedi cael eu marcio'n uwch neu'n is mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed, ac mae angen i'r Ardal sicrhau bod y system farcio hefyd yn adeiladol.

| 12 ARWEINYDDIAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Ardderchog** | **Wedi gwella** |

### 12A Mae'r tîm rheoli yn cyfleu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr Ardal yn dda

- Mae gweledigaeth a gwerthoedd yr Ardal yn ddatganiad moesegol clir sy'n gyson â gweledigaeth a gwerthoedd cenedlaethol y CPS. Fe'i dangosir yn amlwg yn y ddwy swyddfa ac mae'n ymddangos ar frig y cynllun busnes. Caiff safonau perfformiad ar gyfer rheolwyr eu cynllunio i ategu'r weledigaeth a chaiff y rhain eu lledaenu'n eang fel bod staff yn gwybod sut y gallant ddisgwyl cael eu trin. Yn ôl yr arolwg staff "eich llais" yn 2006, roedd 71% o staff yng Ngogledd Cymru yn falch o weithio i'r CPS, yn erbyn 60% yn genedlaethol.

- Rheolir yr unedau gan Erlynwyr y Goron Rhanbarthol Cynorthwyol (Penaethiaid Unedau), y mae pob un ohonynt yn aelodau o Fwrdd Rheoli'r Ardal. Fel y cyfryw, maent yn gweithio'n effeithiol i weithredu penderfyniadau a strategaethau AMT o fewn eu hunedau ac yng nghyd-destun ehangach y CJS.

- Mae'r CCP yn cadeirio is-grŵp ymchwilio a threial yr LCJB ac mae'n rhoi esiampl o arweinyddiaeth ryngasiantaethol, er y gall hyn fod yn adweithiol ar adegau. Mae'r Ardal wedi meithrin cydberthnasau dwyochrol gyda'r llysoedd a'r heddlu ar lefel uwch. Mae hyn wedi helpu i ddatblygu cydbrosiectau fel datblygu achosion Llys y Goron, cyhuddo statudol, a rhyngwyneb system TG yr heddlu â'r CMS. Caiff yr ymagwedd hon tuag at waith rhyngasiantaethol ei hadlewyrchu ar y lefel weithredol lle mae rheolwyr CPS wedi arwain yn llwyddiannus ar faterion ar y cyd megis atafaelu asedau a'r strategaeth trais yn y cartref.

- Mae'r Tîm Rheoli Ardal yn dangos lefel uchel o hyder ar y cyd, ac ymdeimlad datblygedig o gyfrifoldeb ar y cyd. Mae cofnodion cyfarfodydd yr uned a'r tîm yn galluogi'r CCP a'r ABM i gadarnhau bod y lefel hon o gorfforaeth yn cael ei chynnal ar lefel uned. Mae Penaethiaid Unedau yn bersonol gyfrifol am fodloni amcanion penodol yr Ardal, a chaiff perfformiad ei adolygu'n chwarterol gan y CCP. Caiff rheolwyr unedau eraill eu hasesu hefyd yn erbyn safonau perfformiad yr Ardal y cyfeiriwyd atynt uchod.

- Mae'r CCP a'r ABM yn gweithredu polisi 'drws agored' ac mae staff o bob lefel o'r sefydliad yn achub ar y cyfle i godi materion. Fe'u lleolir yn swyddfa Wrecsam, ond maent yn treulio un diwrnod yr wythnos yn swyddfa Bae Colwyn i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael gafael arnynt. Mae'r Ardal yn ymwybodol bod angen i reolwyr fod ar gael i staff yn ystod cyfnodau o newid, ac mae canlyniadau'r arolwg staff diwethaf yn cadarnhau bod tryloywder wedi gwella ers 2004. Yn 2006, roedd 55% o staff o'r farn bod eu rheolwr yn egluro'r rhesymau dros unrhyw newid, o gymharu â 40% yn genedlaethol.

- Mae'r Ardal yn sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd drwy gynnal cyfarfodydd tîm ar wahân yn yr unedau ar yr un diwrnod â'r AMT misol, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny. Mae hyn yn sicrhau bod yr adborth yn gywir ac yn amserol. Yn ôl arolwg staff 2006, cadarnhaodd 73% o staff eu bod yn cael cyfarfodydd tîm rheolaidd o gymharu â 61% yn genedlaethol; ac roedd 67% o'r farn bod y cyfarfodydd yn effeithiol, o gymharu â chyfartaledd

cenedlaethol o 56%. Mae Cylchlythyr Wythnosol Gogledd Cymru hefyd yn darparu sianel gyfathrebu lai ffurfiol.

- Mae'r CCP a'r ABM wedi darparu diwrnodau cyfathrebu mwy penodol yn lle'r 'sioeau teithio' blynyddol. Caiff y rhain eu hagor gan y CCP ac yna caiff pobl drafod yn agored. Caiff yr AMT eu hysbysu o'r materion a godir, a pharatoir cynllun gweithredu Ardal, a ategir gan gynlluniau gweithredu unedau. Caiff pob un o'r digwyddiadau hyn eu rhestru yng nghofnod ymgysylltu'r staff.

- Mae'r Ardal yn awyddus iawn i adolygu perfformiad a gwella ei systemau. Yn ystod 2006-07, gwellodd y defnydd o'r CMS yn sylweddol drwy ddarparu hyfforddiant hyblyg ac amcanion unigol. Mae'r system CTL wedi'i hadolygu a'i newid yn llwyddiannus hefyd.

**12B Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r Ardal a'r CPS ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- Mae safon perfformiad yn Ardal yn ei gwneud yn ofynnol i bob rheolwr roi adborth cadarnhaol i staff lle y bo'n briodol. I'r perwyl hwn, mae'r CCP yn ysgrifennu at staff yn bersonol lle y bo'n briodol, a defnyddir y cynllun talu bonws i gydnabod cyfraniadau ardderchog gan unigolion. Mae'r cylchlythyr hefyd yn cofnodi cyflawniadau. Yn yr arolwg staff, teimlai 40% o staff Gogledd Cymru eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y CPS o gymharu â 23% yn 2004, a 28% yn genedlaethol.

- Mae'r cysyniad o Urddas yn y Gweithle yn amlwg yng ngweledigaeth a gwerthoedd yr Ardal, ynghyd â'r safon perfformiad. Ni wnaeth y staff unrhyw gwynion ynghylch y ffordd y cawsant eu trin gan reolwyr ers yr OPA diwethaf, ac mae'r Ardal wedi gweithio'n galed i ymdrin â'r materion a godwyd. Mae cyfran y staff sydd o'r farn eu bod yn cael eu trin yn deg a chyda pharch wedi cynyddu'n sylweddol o 44% yn 2004, i 69% yn 2006, a 64% oedd y ffigur cenedlaethol. Mae'r Ardal bellach yn defnyddio'r diwrnod cyfathrebu i gael canllawiau ar sut i wella hyn ymhellach. Trafodir y pwnc yn yr AMT, a pharatowyd cynllun gweithredu ar y cyd â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth dros Gymru.

- Y CCP yw'r hyrwyddwr ar gyfer materion cydraddoldeb ac mae hyn yn sicrhau y cânt eu prif ffrydio. O ganlyniad, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau'r Ardal gyda chymorth gan Bencadlys y CPS, fel eu bod yn gymharol gyson â'r Cynllun Cydraddoldeb Unigol. Ni wnaed unrhyw gwynion o dan y weithdrefn cwyno ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

- Mae'r gweithlu yn adlewyrchu'r gymuned i raddau helaeth o ran cynrychiolaeth grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME), a cheir cynllun cynrychioli'r gweithlu i sicrhau y cyflawnir targedau cydraddoldeb rhwng y rhywiau a thargedau cynrychiolaeth eraill maes o law. Caiff pob achos troseddau casineb ei ddadansoddi gan yr Hyrwyddwr Troseddau Casineb, ac mae'r Ardal wedi gosod y sylfeini ar gyfer panel craffu ar droseddau casineb. Ystyrir ymgysylltiad â'r gymuned yn fisol yn yr adolygiadau perfformiad.

- Mae'r uwch dîm rheoli wedi dangos ei fod yn barod i weithredu ynghylch ymddygiad amhriodol, yn fewnol a chydag asiantaethau allanol.

| 13 SICRHAU HYDER Y GYMUNED | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |

### 13A Mae'r Ardal yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau hyder y gymuned

- Mae uwch reolwyr yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r gymuned leol gyfan, a sicrhau ei hyder. Mae gan yr Ardal strategaeth gymunedol ac mae wedi gwneud gwelliant sylweddol o ran ei gweithgaredd ymgysylltu â'r gymuned a'r staff.

- Mae amcanion y tîm yn amlwg yn y cynlluniau busnes, unedau, troseddau homoffobig a'r gweithlu, ac mae pob aelod o Dîm Gweithredu Cymunedau'r Ardal a Phenaethiaid Unedau wedi cael amcanion unigol. Gwnaed defnydd o grŵp ffocws a oedd yn cynnwys staff o bob gradd i gynorthwyo â'r gwaith o ddrafftio'r cynlluniau ar gyfer 2007-08.

- Trafodir ymgysylltiad â'r gymuned yn yr AMT, Cyngor Whitely a chyfarfodydd tîm. Mae'r Tîm Gweithredu Cymunedau yn cwrdd yn chwarterol i drafod ac adolygu'r strategaeth ymgysylltu â'r gymuned. Mae'n cynnwys ystod o staff o raddau gwahanol sydd wedi mynegi parodrwydd penodol i gyfrannu at weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned. Mae pob aelod o'r tîm wedi mynd i weithdy wedi'i hwyluso ar ymgysylltu â'r gymuned a gaiff ei redeg gan gynghorydd perfformiad a pholisi'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

- Cynhelir ystod eang o weithgarwch, yn enwedig ar ddarparu gwybodaeth, ac, i raddau llai, ymgynghori a chyfranogi. Cedwir cofnod o ymgysylltu ynghyd â chofnod y wasg ac maent y dangos yn glir bod cryn dipyn o weithgarwch yn cael ei gynnal ar gyfer Ardal fach. Prin oedd y broses o werthuso gweithgarwch yn flaenorol, ond mae templed wedi'i gyflwyno nawr i gasglu sylwadau gwerthuso sy'n dechrau profi'n effeithiol. Cedwir gwybodaeth wedi'i diweddaru ar ddemograffeg yr Ardal ynghyd â rhestr sefydledig o gysylltiadau ar gyfer grwpiau mwy hygyrch fel grwpiau BME, ffoaduriaid a merched.

- Mae llawer o reolwyr yn gynrychiolwyr ar fforymau amlasiantaethol; un enghraifft yw Pennaeth Uned sy'n gweithio ar y Grŵp Adolygu Trais yn y Cartref, a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio â'u safon genedlaethol ar ymchwilio i achosion o drais yn y cartref. Mae'n werth nodi y gwnaed llawer o waith ar droseddau casineb a gall yr Ardal ddangos cynnydd sylweddol yn lefel y gwaith o gofnodi ac erlyn troseddau casineb.

- Nid yw achosion proffil uchel yn gyffredin yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag mae'r CCP ac uwch reolwyr eraill, ar sawl achlysur, wedi hyrwyddo gwaith y CPS a gwaith amlasiantaethol drwy'r teledu a'r wasg genedlaethol a lleol. Mae Rheolwr Cyfathrebu sy'n gyswllt uniongyrchol ar gyfer y rhan fwyaf o ofynion gan y cyfryngau a chytunwyd ar brotocol rhwng y CPS a'r heddlu ar gyfer sylw ar y cyd gan y cyfryngau.

- Ers sawl blwyddyn, mae'r Ardal wedi cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol ar y rhyngrwyd yn Gymraeg a Saeseng ac mae bellach yn cynnig y dewis i ddioddefwyr a thystion ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg. Mae hyn yn golygu lle bydd rhywun yn dewis Cymraeg, mae'r Ardal yn gyfreithiol ymrwymedig i gynnig y gwasanaeth llawn yn yr iaith honno. Mae hefyd mewn

cysylltiad â'r Pencadlys ynghylch y posibilrwydd o gyhoeddi llythyrau safonol cyfredol yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, fel y gall yr Ardaloedd Cymraeg eu defnyddio.

- Mae hyder y cyhoedd yng ngallu'r system cyfiawnder troseddol i ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell yng Ngogledd Cymru wedi gwaethygu, er bod lefelau'n parhau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (43.7% yn erbyn 42.3%).

# ATODIAD A: DATA AR BERFFORMIAD

## Agwedd 1: Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 13.1% | 13.7% | 11.0% | 13.1% | 18.2% | 9.3% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 72.2% | 73.5% | 68.0% | 66.5% | 63.4% | 74.8% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 18.8% | 18.8% | 23.0% | 22.2% | 29.4% | 17.9% |

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Penderfyniadau cyn cyhuddo sy'n arwain at gollfarn ar ôl cyhuddiad | 78.0% | 81.4% |

## Agwedd 2: Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn y llysoedd ynadon | 84.3% | 87.2% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 48.7% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 37.3% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 14.0% |
| Cyfradd treialon a gaiff eu gadael | 22.5% | 30.6% |

**Perfformiad cyffredinol o ran troseddwyr ifanc cyson (rhwng arestio a dedfrydu)**

| Targed cenedlaethol | Perfformiad cenedlaethol 2006 | Perfformiad yr Ardal 2006 |
|---|---|---|
| 71 o ddiwrnodau | 72 o ddiwrnodau | 73 o ddiwrnodau |

*Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt*

| | Targed CJS yr Ardal 2006-07 | Perfformiad CJS yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Nifer y troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt | 15,497 | 17,575 |

| Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt yn ôl canran | Cenedlaethol 2006-07 [5] | Ardal cyfiawnder troseddol 2006-07 |
|---|---|---|
| Troseddau a ystyriwyd (TCIs) | 8.5% | 7.9% |
| Hysbysiadau cosb am anrhefn (PNDs) | 10.3% | 25.4% |
| Rhybuddion ffurfiol | 5.8% | 5.2% |
| Rhybuddion | 26.5% | 14.3% |
| Collfarnau | 48.8% | 47.2% |

## Agwedd 3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn Llys y Goron | 77.7% | 82.9% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 51.4% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 40.2% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 8.4% |

5 Yn aros am y ffigurau terfynol o hyd.

| Gorchmynion Deddf Elw Troseddau | Targed yr Ardal 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Gwerth | £273,905 | £2,756,125 |
| Nifer | 12 | 15 |

## Agwedd 10: Rheoli adnoddau

| | 2005-06 | 2006-07 |
|---|---|---|
| Alldro cyllideb costau gweinyddu heb eu neilltuo | 99.73% | 99.92% |

| Lleoli staff | Targed cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|---|
| Lleoli DCW (fel % o'r sesiynau yn y llysoedd ynadon) | 17.2% | 14.7% | 24.5% |
| Arbedion HCA yn erbyn targed yr Ardal | 100% | 138.4% | 175.8% |
| Absenoldeb oherwydd salwch (fesul cyflogai y flwyddyn) | 7.5 o ddiwrnodau | 8.5 o ddiwrnodau | 7.2 o ddiwrnodau |

## Agwedd 13: Sicrhau hyder y gymuned

**Hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd yr asiantaethau cyfiawnder troseddol o ran dwyn troseddwyr o flaen eu gwell (Arolwg Troseddu Prydain)**

| Canran sylfaen ardal y CJS 2002-03 | 2004-05 (OPA diwethaf) | Perfformiad yn 2006-07 |
|---|---|---|
| 47% | 47% | 45.5% |

# ATODIAD B: ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL A SEFYDLIADAU A GYNORTHWYODD Â'R ASESIAD PERFFORMIAD CYFFREDINOL HWN

**Yr Heddlu**
Heddlu Gogledd Cymru

**Gwasanaeth Llysoedd EM**
Gwasanaeth Llysoedd EM Gogledd Cymru

**Cymorth i Ddioddefwyr**
Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru

**Grwpiau Cymunedol**
Stonewall Cymru

HMCPSI Rhif Cyhoeddiad 770 / HMCPSI publication no. 770

**Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu crynodeb neu fersiwn cyflawn o'r llyfryn hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd eraill.**

**I gael gwybodaeth neu i gael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn, cysylltwch â'n Tîm Cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.hmcpsi.gov.uk**

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
26-28 Old Queen Street
London SW1H 9HP
Ffôn: 020 7210 1197
Ffacs: 020 7210 1195

Swyddfa Caerefrog:
United House, Piccadilly
York, North Yorkshire, YO1 9PQ
Ffôn: 01904 54 5490
Ffacs: 01904 54 5492

Gwefan:
www.hmcpsi.gov.uk

ⓗ Hawlfraint y Goron 2007